

# TANIO ANGERDD

*dros hoci*




# Cynnwys


**Neges y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol** ... 3
**Adroddiad ariannol** ... 4
**Staff a Chyfarwyddwyr Bwrdd Hoci Cymru 2025 /26** ... 5
**Martyn Gallivan** ... 6
**Graffeg Gwybodaeth Cyfryngau Cymdeithasol** ... 6

YMGYSYLLTU

Cyfleusterau a Chyllid ... 8
Diogelu ... 10
Rhaglen Dreftadaeth ... 12
Cydraddoldeb a amrywiaeth ... 14
Cynhwysiant ... 16
Llysgenhadon Ifanc Hoci (LlIH) ... 18
Gwersylloedd ... 19

CYSTADLU

Meistri Cymru ... 22
Llwybr Sirol ... 24
Rhaglen Sirol ... 27
Enillwyr Cystadlaethau 2025/26 ... 29
Cystadlu - Prif Ystadegau Cystadlaethau 2025/26 ... 30
Cymdeithas Dyfarnwyr Hoci Cymru ... 31

PERFFORMIO

Crynodeb Cyfarwyddwr Perfformiad 2025 ... 33
Dathlu 2025/26: Crynodeb o Berfformiad ... 34
Cerrig Milltir / Capiau / Cyflawniadau ... 36
Cynrychioli Prydain Fawr ... 36
Cwpan Iau y Byd ... 37
Grwpiau Oedran Cenedlaethol (GOC'iau) ... 38
Rhaglen Ranbarthol ... 40

**Ffrindiau Hoci Cymru** ... 41
**Partneriaid a Rhanddeiliaid** ... 42
**Edrych ymlaen at 2026/27** ... 43

# Neges y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol

**Annwyl Aelodau,**

**Fel Prif Weithredwr a Chadeirydd, hoffem ddiolch i chi am eich ymrwymiad parhaus i hoci yng Nghymru ac adlewyrchu ar flwyddyn sydd wedi bod yn un o'r rhai anoddaf yn hanes diweddar ein sefydliad.**

Daeth y flwyddyn hon â her ariannol sylweddol, gyda'r lefel isaf o gyllid i ni ei dderbyn gan Chwaraeon Cymru ers blynyddoedd lawer. Er gwaethaf hyn, mae'r gwydnwch a ddangoswyd gan ein clybiau, gwirfoddolwyr, swyddogion, hyfforddwyr, chwaraewyr a staff wedi bod yn eithriadol. Dro ar ôl tro, mae'r gymuned hoci wedi dangos ei gallu i addasu, cefnogi ei gilydd a chadw ein camp yn ffynnu.

Mae ein Hadroddiad Blynyddol diweddaraf yn tynnu sylw at ba mor gryf yw hoci yng Nghymru o hyd. Wrth galon y gamp mae cymuned a chynhwysiant sy'n groesawgar ac yn falch o fod yn amrywiol. Mae'r cyfranogiad mewn cystadlaethau ysgolion wedi cynyddu 37%, mae'r aelodaeth iau wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac rydym wedi gweld twf calonogol mewn pobl sy'n camu i swyddi y tu hwnt i chwarae. Mae trwyddedau hyfforddi a dyfarnu newydd sydd wedi'u cyhoeddi eleni'n adlewyrchu ehangder yr unigolion sy'n rhoi eu hamser a'u harbenigedd i gefnogi'r gêm ar bob lefel.



***"Mae ein Hadroddiad Blynyddol diweddaraf yn tynnu sylw at ba mor gryf yw hoci yng Nghymru o hyd. Wrth galon y gamp mae cymuned a chynhwysiant sy'n groesawgar ac yn falch o fod yn amrywiol."***

***"Gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i dyfu camp sy'n gynhwysol, yn uchelgeisiol, ac wedi'i chysylltu'n ddwfn â'i chymunedau."***



Ar y cae, mae hoci yng Nghymru yn parhau i ragori ar ddisgwyliadau. Mae ein timau rhyngwladol wedi cystadlu gyda balchder ar lwyfan y byd, yn fwyaf nodedig, Dynion Cymru yn cymhwyso ar gyfer Cwpan y Byd am yr eildro yn unig yn ein hanes. Cyflawniad nodedig a fydd, gobeithio, yn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf. Rydym hefyd yn eithriadol falch o nifer y timau Meistri Cymru gafodd eu cynrychioli yng Nghwpan Dan Do y Byd, gan danlinellu nad oes cyfyngiad oedran ar hoci rhyngwladol.

Mae'r straeon o'n cymunedau ni yr un mor bwerus. Mae mentrau fel sesiynau Hoci Cerdded Cwmtawe yn dangos sut mae hoci'n cefnogi cyfranogiad am oes, cysylltiad a lles. O'r cae chwarae i'r podiwm, ac o ieuenctid i'r Meistri, mae hoci yn parhau i fod yn gamp am oes ledled Cymru.

Wrth i ni edrych ymlaen, rydym yn gwneud hynny gan ddeall yr heriau, ond gyda hyder wedi'i wreiddio yn ein pobl. Diolch i chi am eich angerdd, eich dyfalbarhad a'ch cred yn yr hyn y mae hoci yng Nghymru yn sefyll drosto. Gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i dyfu camp sy'n gynhwysol, yn uchelgeisiol, ac wedi'i chysylltu'n ddwfn â'i chymunedau.

***Gyda diolch diffuant a dymuniadau gorau,***



**Bill Riley**
*Cadeirydd*



**Paul Whapham**
*Prif Swyddog Gweithredol*

# *Adroddiad ariannol*

| Incwm | |
|---|---|
| Grant Chwaraeon Cymru | £231,808 |
| Grant Loteri Perfformiad | £261,779 |
| Grantiau Eraill | £50,220 |
| Masnachol | £56,004 |
| Aelodaeth | £244,309 |
| Datblygu Chwaraeon | £81,647 |
| Cyfraniadau gan chwaraewyr | £384,960 |
| Cefnogaeth meistr | £209,732 |
| **CYFANSWM** | **£1,520,459** |




| Gwariant | |
|---|---|
| Busnes | £345,809 |
| Masnachol | £32,327 |
| Datblygiad | £280,906 |
| Perfformiad | £666,657 |
| Cefnogaeth meistr | £209,732 |
| **CYFANSWM** | **£1,535,431** |



# *Staff a Chyfarwyddwyr Bwrdd Hoci Cymru 2025 /26*

## Bwrdd y Cyfarwyddwyr

**Paul (Bill) Riley** .......... Cyfarwyddwr a Etholwyd, Cadeirydd

**Kate Williams** ............ Cyfarwyddwr a Etholwyd

**John Bowyer** ............. Cyfarwyddwr a Etholwyd (Medi 25)

**James Fortnam** ........ Cyfarwyddwr a Etholwyd (Medi 25)

**Andrea Byrne** ............ Cyfarwyddwr a Benodwyd

**David Francis** ............ Cyfarwyddwr a Benodwyd, Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol

**David Hagendyk** ........ Cyfarwyddwr a Benodwyd

**Jeevan Chagger** ........ Cyfarwyddwr a Benodwyd

**Matt Clement** ........... Cyfarwyddwr a Benodwyd (Medi 25)

**Paul Whapham** .......... Prif Weithredwr

**Debbie Wakeford** ....... Cyfarwyddwr a Benodwyd (tan fis Medi 25)

**Martyn Gallivan** ......... Llywydd (tan fis Gorffennaf 25)

## Staff

**Paul Whapham** .......... Prif Swyddog Gweithredol

**Joe Gage** .................. Cyfarwyddwr PT a Chyfranogiad

**Katie Glynn** ............... Cyfarwyddwr Perfformiad (dechreuodd Hydref 25)

**Amanda Roberts** ........ Rheolwr Digwyddiadau Cenedlaethol a Datblygu Pobl

**Ella Jackson** .............. Rheolwr Llwybr a Chydymffurfiaeth

**Sarah Hardman** ......... Cydlynydd Perfformiad PT (dechreuodd Medi 25)

**Jane Price** ................. Rheolwr Cefnogi Busnes

**Chelsea Jenkins** ........ Swyddog Datblygu Hoci (De Orllewin)

**Rachel Dathan** ........... Swyddog Datblygu Hoci (Gogledd – dechreuodd Medi 25)

**Matty Sears** .............. Swyddog Datblygu Hoci PT (De Ddwyrain – dechreuodd Medi 25)

**Tony Waymouth** ........ Rheolwr Codi Arian PT – (dechreuodd Medi 25)

**Jonny Fleck** ............... Arweinydd Clwb ac Aelodaeth PT - (dechreuodd Mehefin 25)

**Stephanie Bullen** ........ Cydlynydd Perfformiad PT (tan fis Ebrill 25)

**Cerys Studt** ............... Swyddog Datblygu Hoci (Gogledd) (tan fis Mai 25)

**Kevin Johnson** ........... Cyfarwyddwr Perfformiad PT (tan fis Medi 25)

**Matt Davis** ................ Swyddog Datblygu Hoci PT (De Ddwyrain) (tan fis Medi 25)

**Sydney Davies** ........... Arweinydd Cyfryngau Perfformiad a Chysylltiadau Cyhoeddus PT (tan fis Ragfyr 25)

# Martyn Gallivan

**Ym mis Gorffennaf 2025, fe roddodd Martyn Gallivan y gorau i fod yn Llywydd Hoci Cymru ar ôl 5 mlynedd.**

Gyda'i ymwneud â hoci Cymru'n dyddio'n ôl i 1975, mae Martyn wedi gwneud cyfraniad sylweddol at y gamp yng Nghymru ac yn rhyngwladol, yn enwedig fel dyfarnwr Gradd 1 rhyngwladol ac yn ddiweddarach, am ddegawd, fel Rheolwr Cystadlaethau FIH. Mae ei ymrwymiad i ddatblygu, llywodraethu a chynhwysiant ar draws pob lefel o'r gêm wedi gadael gwaddol parhaol ar y llwyfan byd-eang ac rydym yn ddiolchgar am ei ymrwymiad a'i gyfraniad i hoci cenedlaethol a rhyngwladol.

Diolch yn ddiffuant Martyn am bopeth rydych chi wedi'i wneud ac yn parhau i'w wneud i ni.




# Graffeg Gwybodaeth Cyfryngau Cymdeithasol

| | Dilynwyr | Cynnwys Wedi'i Gyhoeddi | Argraffiadau |
|---|---|---|---|
| Facebook | 7,490 5.7% ↑ | 38.5% ↑ | 2.99m |
| Instagram | 11,760 15.8% ↑ | 116% ↑ | 7.85m |
| X | 12,900 1.5% ↓ | 20% ↓ | - |
| LinkedIn | 1,143 | 15% ↑ | 24k |
| TikTok | 1,463 21.9% ↑ | 2% ↑ | 114k |

**Cylchlythyr**

| | Hoci Cymru | Cyfartaledd y Diwydiant |
|---|---|---|
| Tanysgrifwyr (y mis) | 3,946 | - |
| Cyfanswm yr agoriadau | 96% | 38-40% |
| Cyfradd agor unigryw | 57% | 38-40% |
| Cyfradd clicio | 12% | 2-4% |
| Cyfradd clicio unigryw | 9% | 2-3% |

# YMGYSYLLTU

# Cyfleusterau a Chyllid

## Grŵp Cydweithredu Chwaraeon Cymru

Mae lle hoci yn nhirlun chwaraeon Cymru wedi'i siapio, i raddau helaeth, gan ddegawd o fuddsoddiad cydweithredol. Mae Grŵp Cydweithredu Chwaraeon Cymru — partneriaeth tair camp rhwng Hoci Cymru, Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC), ac Undeb Rygbi Cymru (URC) — wedi tyfu o weledigaeth strategol i fod yn un o'r rhaglenni cyfleusterau mwyaf effeithiol sy'n gweithredu ledled Cymru heddiw.

Mae'r hyn a ddechreuodd yn 2015 fel fframwaith i ddylanwadu ar benderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol wedi darparu mwy na £10 miliwn o gyllid grant ers hynny, gan gefnogi mwy na saith deg o brosiectau o Ynys Môn i Sir Fynwy. Ar gyfer hoci yn benodol, mae'r Grŵp Cydweithredu wedi sianelu mwy na £4.99 miliwn i ddatblygu caeau artiffisial ers ei sefydlu — ffigur sy'n cynrychioli nid yn unig arwynebau a llifoleuadau, ond cymunedau sy'n gallu cael mynediad at y gêm drwy gydol y flwyddyn.

## Sut Mae'r Rhaglen yn Gweithio

Mae'r broses gyllido'n fwriadol drylwyr. Fel rheol, datblygir prosiectau dros isafswm o ddeuddeg mis cyn eu cyflwyno'n ffurfiol, gyda staff Hoci Cymru yn gweithio ochr yn ochr ag awdurdodau lleol, ysgolion ac ymddiriedolaethau hamdden i lunio ceisiadau credadwy, wedi'u strwythuro'n dda. Mae pob cais yn cael ei adolygu wedyn gan weithgor aml-chwaraeon yn erbyn meini prawf sy'n rhoi sylw i dirwedd y cyfleuster, arwyddocâd o ran chwaraeon, llywodraethu, ac elw ar fuddsoddiad. Mae'r gymeradwyaeth derfynol yn nwylo Prif Swyddogion Gweithredol y tri Chorff Rheoli a Chwaraeon Cymru, gan sicrhau'r lefel uchaf o atebolrwydd.

Yn flynyddol, mae Chwaraeon Cymru yn neilltuo £1 miliwn tuag at ddatblygu caeau artiffisial ledled Cymru. Mae hoci'n cystadlu am gyfran o'r cyllid hwn ochr yn ochr â phêl droed a rygbi — gan wneud cydweithredu cynnar ac effeithiol gydag awdurdodau lleol a CBDC yn hanfodol i ddatgloi buddsoddiad.

## Canlyniadau Panel 2025/26

Eleni, cyflwynodd hoci bedwar cais i'r Grŵp Cydweithredu, yn werth £1,381,000 gyda'i gilydd. O'r pot cyllid cyfalaf o £1,320,000 oedd ar gael, cafodd £530,000 ei gadarnhau ar gyfer hoci. Ar draws y tair camp, sicrhaodd pêl droed dri chais llwyddiannus yn dod i gyfanswm o £540,000, a derbyniodd rygbi un dyfarniad o £250,000 o dri chais a oedd yn gyfanswm o £750,000.

## Prosiectau Gweithredol ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

**Hoci Cymru is actively engaged with a pipeline of projects across Wales.**

Canlyniadau allweddol yn cynnwys:

- Cwblhawyd y cae ac fe'i hagorwyd yn swyddogol yn Dysynni
- Bydd gwaith datblygu yn Northop Hall yn dechrau yn ddiweddarach eleni, gan ddefnyddio arian o gronfa gyfalaf gydweithredol gwerth £530,000 a gadarnhawyd ar gyfer hoci.



## Cronfa Cymru Actif: Dyfarniadau Hoci 2025–26

**Ochr yn ochr â buddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau, mae clybiau hoci Cymru wedi bod yn gyfranogwyr gweithredol yng Nghronfa Cymru Actif (CCA) Chwaraeon Cymru — rhaglen grantiau ar lawr gwlad sydd wedi'i chynllunio i gefnogi clybiau a grwpiau cymunedol i wella cyfranogiad ac ehangu mynediad i chwaraeon. Ar draws tair ffenestr gyllido rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026, roedd cyfanswm o ddeg cais hoci yn llwyddiannus, gan ddarparu £32,022 mewn cyllid uniongyrchol i glybiau ledled Cymru.**

O adrannau iau yng nghefn gwlad canolbarth Cymru i glybiau sy'n cwmpasu'r gogledd a'r de, mae ehangder y sefydliadau sydd wedi cael eu cefnogi'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn y gymuned hoci. Mae naw o'r dwy ar hugain o ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru wedi'u cynrychioli ar draws y dyfarniadau llwyddiannus — dosbarthiad daearyddol sy'n dyst i gyrhaeddiad hoci ledled y wlad.

### FFENESTR 1 — HAF 2025 (Panel Gorffennaf)

**Gwnaeth tri chlwb hoci gais yn Ffenestr 1, gyda'r tri'n derbyn penderfyniadau cyllido o'u plaid gan banel mis Gorffennaf 2025. Roedd y cyllid cyfun a ddyfarnwyd yn £5,795:**

#### Clwb Hoci Merched Yr Isga (Caerffili)

**£1,928** wedi'i ddyfarnu tuag at Ailddatblygu'r Adran Iau, gan gefnogi'r genhedlaeth nesaf o chwaraewyr benywaidd yn y rhanbarth.

#### Clwb Hoci Pwllheli (Gwynedd)

**£1,259** wedi'i ymrwymo i brosiect sy'n canolbwyntio ar "Cadw'r chwaraewyr hŷn ar y cae a'r plant yn y gêm" — gan fynd i'r afael â chadw a recriwtio mewn un fenter.

#### Clwb Hoci Iau Llanandras (Powys)

**£2,608** wedi'i ymrwymo i "Hyrwyddo ffordd o fyw hoci iach!" — clwb sy'n gweithio i ymgorffori hoci yn niwylliant chwaraeon cymuned wledig yng Nghymru.

### FFENESTR 2 — HYDREF 2025 (Panel Tachwedd)

**Yn Ffenestr 2, derbyniodd pedwar o glybiau hoci ddyfarniadau, gyda chyllid o £17,754 wedi'i ymrwymo. Roedd y grŵp yn dangos ehangder y gêm yn ddaearyddol, o Sir Benfro yn y gorllewin i Sir Ddinbych yn y gogledd:**

#### Clwb Hoci Aberdaugleddau (Sir Benfro)

**£1,215** wedi'i ymrwymo o gyfanswm cost y prosiect o £5,065.

#### Clwb Hoci Llandysul (Ceredigion)

**£3,245** wedi'i ymrwymo o brosiect gwerth £3,605 — cyfradd gyllido gref o 90% o'r swm y gwnaed cais amdano.

#### Clwb Hoci Tre-gŵyr (Abertawe)

**£6,832** wedi'i ymrwymo o brosiect gwerth £7,592 — y dyfarniad unigol mwyaf yn y ffenestr hon ar gyfer hoci.

#### Clwb Hoci Rhuthun (Sir Ddinbych)

**£6,462** wedi'i ymrwymo o brosiect gwerth £9,780.

### FFENESTR 3 — GAEAF / GWANWYN 2026 (Panel Chwefror)

**Yn Ffenestr 3 y cyflwynwyd y cyfanswm mwyaf mewn ffenestr sengl ar gyfer hoci, gyda thri dyfarniad yn ymrwymo £11,081 ar draws grŵp amrywiol o sefydliadau:**

#### Clwb Hoci Wrecsam Glyndŵr (Wrecsam)

**£5,400** wedi'i ymrwymo o brosiect gwerth £5,890 — 100% o'r swm y gwnaed cais amdano, gan adlewyrchu cais a baratowyd yn dda.

#### Clwb Hoci Castell Newydd Emlyn (Sir Benfro)

**£3,731** wedi'i ymrwymo o brosiect gwerth £4,996. Roedd y clwb hwn yn aflwyddiannus yn Ffenestr 2 a daeth yn ôl gyda chais diwygiedig — tystiolaeth o ddyfalbarhad a gwerth ailymgysylltu â'r broses.

#### Clwb Hoci Teigrod Tywi (Sir Gaerfyrddin)

**£1,950** wedi'i ymrwymo. Gwrthodwyd y clwb hwn hefyd yn Ffenestr 2 ac ailymgeisiodd yn llwyddiannus — enghraifft nodedig o glwb yn gweithio gyda'r broses yn hytrach na chamu i ffwrdd oddi wrthi.

## Y Flwyddyn Mewn Rhifau

**Ar draws tair ffenestr Cronfa Cymru Actif yn 2025–26:**

**10** cais hoci llwyddiannus wedi'u cefnogi ledled Cymru

Cyfanswm o **£32,022** o gyllid wedi'i ymrwymo i glybiau a sefydliadau hoci

**9** ardal awdurdod lleol wedi'u cyrraedd — o Wynedd i Gaerdydd, Sir Benfro i Wrecsam

**Ffenestr 3** oedd y ffenestr gryfaf ar gyfer hoci, gan ddarparu **£24,081** — mwy na Ffenestri 1 a 2 gyda'i gilydd

Gwrthodwyd **dau glwb** — Clwb Hoci Castell Newydd Emlyn a Chlwb Hoci Teigrod Tywi — yn Ffenestr 2 ac ailymgeisiodd y ddau yn llwyddiannus yn Ffenestr 3

Ochr yn ochr â'r £530,000 a gadarnhawyd drwy Grŵp Cydweithredu Chwaraeon Cymru yn 2025/26, a'r cyflenwad ehangach o brosiectau cyfalaf sy'n cael eu datblygu gydag awdurdodau lleol ledled Cymru, mae hon wedi bod yn flwyddyn o weithgarwch cyllido sylweddol ar gyfer hoci yng Nghymru.

**Mae'r gwaith yn parhau.**

# *Diogelu*

## Trosolwg

**Mae diogelu'n parhau i fod yn flaenoriaeth ganolog i Hoci Cymru. Yn 2025/26 rydym wedi parhau i gryfhau ein prosesau, cynyddu cefnogaeth i Swyddogion Lles Clybiau (SLIC), a chreu diwylliant lle mae adrodd yn cael ei ystyried yn arwydd o gryfder.**

Eleni gwelwyd cynnydd o 20% yn nifer yr adroddiadau diogelu a dderbyniwyd. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rydym yn ystyried hyn yn gadarnhaol — mae'n adlewyrchu ymwybyddiaeth well, mwy o hyder mewn llwybrau adrodd, a pherthnasoedd cadarnach gyda chlybiau ledled Cymru.

## Cymhariaeth Dwy Flynedd: 2024/25 – 2025/26

**Adroddiadau Diogelu a Dderbyniwyd**

2024/25: **78** | 2025/26: **94** (+20% ar y flwyddyn flaenorol)

**Archwiliadau CWO a Gwblhawyd**

2024/25: **3** | 2025/26: **3** (+38% ar y flwyddyn flaenorol)

**Safon Diogelu CPSU**

2024/25: **Level 3** (Cyflawnwyd ym mis Mai 2024) | 2025/26: **Level 3** (Wedi'i Gynnal)

**Sesiynau Arfer Gorau a Gynhaliwyd**

2024/25: **0** | 2025/26: **3**

**Amser Ymateb i Adroddiad ar Gyfartaledd**

2024/25: **3 diwrnod** | 2025/26: **1 diwrnod**




## Rhaglen Swyddogion Lles Clybiau

Yn wahanol i dymhorau blaenorol, cafwyd cyfarfodydd strwythuredig gyda SLlC drwy gydol y flwyddyn gyfan yn hytrach nag ar adegau ynysig yn 2025/26. Roedd y cyswllt rheolaidd hwn yn galluogi i ni nodi bylchau'n gynnar, cynnig cefnogaeth amserol, creu lle ar gyfer cwestiynau ac adborth, a thracio lefelau hyder SLlC drwy gydol y tymor.

### CLYBIAU'N RHANNU ARFER GORAU

Un datblygiad arwyddocaol y tymor yma oedd clybiau'n mynd ati i rannu'r hyn sy'n gweithio'n dda yn eu hamgylcheddau eu hunain. Mae'r dull yma o weithredu, dan arweiniad cydweithwyr, wedi cynnwys y canlynol:

- Sut mae clybiau'n strwythuro sesiynau sefydlu diogelu ar gyfer aelodau a gwirfoddolwyr newydd
- Dulliau cyfathrebu y mae clybiau'n eu defnyddio i atgoffa aelodau o brosesau adrodd
- Sut mae clybiau'n ymdrin â sgyrsiau lles yn sensitif gyda rhieni a chwaraewyr ifanc
- Dulliau ymarferol o redeg amgylcheddau tîm sy'n ymwybodol o ddiogelu

Mae'r Rhwydwaith Diogelu ar Spond yn parhau i wasanaethu fel yr hwb ar gyfer cyfathrebu gyda SLlC, gydag adnoddau newydd a chanllawiau wedi'u diweddaru'n cael eu dosbarthu'n rheolaidd.

## Adrodd yn 2025/26

Y tymor yma derbyniodd Hoci Cymru 94 o adroddiadau diogelu — cynnydd o 20% ar 2024/25 a 52% ar 2023/24. Rydym yn derbyn adroddiadau drwy ein ffurflen adrodd am ddigwyddiadau ar-lein a MyConcern, ein platfform rheoli achosion.

Mae'r cynnydd yma'n adlewyrchu'r canlynol:

- Mwy o ymwybyddiaeth o beth sy'n cyfateb i bryder diogelu
- Mwy o hyder yn ein prosesau adrodd
- Newid diwylliant o fewn clybiau lle mae codi llais yn cael ei normaleiddio
- Effaith Cyfryngau Cymdeithasol Diogel, cyfathrebu SLlC, a chynnwys sy'n chwalu mythau

Nid lleihau nifer yr adroddiadau yw ein nod — ond sicrhau bod pob pryder yn cael ei glywed, ei drin yn dda, a'i ddefnyddio i wella ein camp.

## Beth Rydym Wedi'i Wneud y Tymor Yma

- Wythnos Cyfryngau Cymdeithasol Diogel — cynnwys sy'n chwalu mythau i annog adrodd yn hyderus
- Cysylltu â SLIC drwy gydol y flwyddyn, nid dim ond ar ddechrau neu ddiwedd y tymor
- Clybiau'n cyflwyno arfer gorau i glybiau eraill
- Dogfennau canllaw wedi'u diweddaru a'u dosbarthu drwy'r Rhwydwaith Diogelu
- Protocolau diogelu tîm perfformiad wedi'u hadolygu a'u hadnewyddu
- Safon Lefel 3 CPSU wedi'i chynnal am yr ail flwyddyn yn olynol

## DIOLCH YN FAWR

**Dim ond mor gadarn â'r bobl sy'n ymrwymo iddo yw diogelu. Dim ond oherwydd yr ymroddiad a ddangoswyd ar draws hoci yng Nghymru mae'r cynnydd a wnaed yn 2025/26, ac ar draws y tair blynedd diwethaf, yn bosibl.**

### I'n Swyddogion Lles Clybiau

Diolch i chi am eich amser, eich gofal, a'ch parodrwydd i ymgysylltu drwy gydol y flwyddyn. Mae eich rôl chi'n hanfodol ac rydym wir yn gwerthfawrogi.

### I'n clybiau

Diolch i chi am gofleidio arfer gorau, rhannu eich dulliau'n agored, a chreu amgylcheddau lle mae pob aelod (chwaraewyr a gwirfoddolwyr) yn teimlo'n ddiogel.

### I'n timau perfformiad

Diolch i chi am fodelu'r safonau rydym yn eu disgwyl ar draws hoci yng Nghymru..

### I'n holl aelodau

diolch i chi am wella, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Dyma'r holl bwrpas a'r nod.



# *Rhaglen Dreftadaeth*

## Prosiect Capiau Hoci Cymru

Wedi'i sefydlu bellach ers saith i wyth mlynedd, mae Prosiect Capiau Hoci Cymru yn parhau i fod yn un o'r darnau mwyaf uchelgeisiol ac ystyrlon o waith hanesyddol sydd wedi'i wneud erioed gan Hoci Cymru. Mae'r nod yn syml ond yn rhyfeddol: cynhyrchu cofnod cyflawn o gemau a chapiau chwaraewyr ar gyfer pob chwaraewr rhyngwladol o Gymru sydd wedi cael cap - dynion a merched - ers 1895 hyd heddiw.

Mae'r nod hwnnw'n agosach nag erioed. Diolch i ymroddiad rhyfeddol Phil Bailey a Steve Knight, mae'r hyn a ddechreuodd o ddim byd wedi tyfu i fod yn archif gyfoethog, fanwl sy'n dal i dyfu a fydd yn gwasanaethu hoci yng Nghymru am genedlaethau i ddod. Mae mwyafrif helaeth yr ymchwil wedi'i gwblhau bellach, neu bron â'i gwblhau, ac mae'r darnau olaf, er yr anoddaf, o'r jig-so, o fewn ein cyrraedd ni yn sicr.

## Phil Bailey a Steve Knight

Ni fyddai dim o hyn yn bodoli heb Phil a Steve. Yn wirfoddol ac yn ddiflino, maen nhw wedi gyrru'r prosiect hwn yn ei flaen — ymweld ag archifau, cysylltu â chyn-chwaraewyr rhyngwladol, croesgyfeirio cofnodion hanesyddol ar draws sawl ffynhonnell, a chreu darlun o hanes hoci yng Nghymru nad oedd erioed wedi'i gofnodi mewn un lle o'r blaen.

Mae eu gwaith eleni wedi parhau'n frwd. Mae'r uchafbwyntiau allweddol o fis Ebrill 2025 i fis Ebrill 2026 yn cynnwys y canlynol:

- Defnyddio ffotograffau a dynnwyd yn yr Amgueddfa Hoci (THM) yn 2024 o gofnodion gemau Patrick Rowley i lenwi bylchau mewn data gemau hanesyddol — cam sylweddol ymlaen wrth gwblhau ein cofnodion ar gyfer degawdau penodol
- Cyfarfod â Katie Dodd o Loegr yn Lee Valley, a agorodd gyfle hynod gyffrous: ymweliad posibl ar y cyd â Phencadlys FIH yn Lausanne gydag ymchwilwyr o Loegr (Katie Dodd) a'r Alban (Alan Veitch), lle gallai taflenni gemau sy'n cael eu cadw yn archif FIH ddatgloi cofnodion coll ar gyfer y tair gwlad
- Derbyn rhagor o wybodaeth a chysylltiadau gan Chris Brewer a Martyn Gallivan yn dilyn y Cyflwyniad Capiau diweddaraf, gan ychwanegu cliwiau newydd i fynd ar drywydd cofnodion chwaraewyr

- Parhau i ohebu â Nan Thomas i drefnu cyfarfod ac adolygu ei chofnodion personol
- Cysylltu eto gyda Zak Jones, a chwaraeodd drwy un o'r cyfnodau cymhlethaf yng nghofnod y capiau (ar ôl 2002) ac sydd eisoes wedi darparu cyd-destun gwerthfawr ynghylch sut dyfarnwyd capiau yn yr oes honno
- Cydlynu â Rae Ellis, sydd wedi bod yn mynd drwy gofnodion ac eiddo cyn-chwaraewr rhyngwladol Cymru ac wedi neilltuo bocsys o ddeunydd hanesyddol — gan gynnwys ffotograffau, rhaglenni a chofroddion personol — i Phil a Steve eu casglu
- Cyflwyno ei chap rhyngwladol i Lorraine Sharp — un o rannau mwyaf personol ac ystyrlon y prosiect
- Cynllunio cyflwyniad i Helen Jones, a fydd yn derbyn ei chap pan fydd hi'n teithio draw o'r Unol Daleithiau

## Ffynonellau ac Ymchwil

Mae'r prosiect yn defnyddio amrywiaeth nodedig o ffynonellau y mae Phil a Steve wedi treulio blynyddoedd yn eu hadnabod, yn cael mynediad iddynt ac yn eu croesgyfeirio. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Archif Papurau Newydd Prydain a Phapurau Newydd Cymru Ar-lein
- Cofnodion hanesyddol The Times a The Telegraph
- Cronfa ddata gemau a chwaraewyr timau dynion Undeb Hoci Cymru rhwng 1899 a 2002
- Llyfrau Dewis Hoci Cymru
- Y cofnodion am hyfforddwyr a chwaraewyr sy'n cael eu cadw gan Hoci Cymru
- Cofnodion cronfa ddata FIH o 2014 hyd heddiw
- Taflenni gemau FIH
- Cofroddion sy'n cael eu cadw yn Hoci Cymru — ffotograffau, rhaglenni a dogfennau hanesyddol
- Ffotograffau o gofnodion gemau personol Patrick Rowley, a dynnwyd yn ystod ymweliad â'r Amgueddfa Hoci yn 2024

Roedd Patrick Rowley yn newyddiadurwr papur newydd amlwg yn y cyfnod ar ôl y rhyfel ac mae ei gofnodion personol am gemau ymhlith y ffynonellau manylaf ar gyfer y cyfnod hwnnw. Mae ei gofnodion eisoes wedi galluogi i Phil a Steve lunio data gemau mwy cyflawn ar gyfer nifer o gyfnodau — er nad oes manylion am chwaraewyr unigol a sgorwyr o hyd nes daw'r cofnodion digidol llawn o THM.

## Gwaith i'w Wneud a'r Camau Nesaf

### YMWELIAD Â PHENCADLYS FIH — LAUSANNE

Ym mis Ionawr ymunodd Steve â chynrychiolwyr o Loegr a'r Alban mewn ymweliad â Phencadlys FIH yn Lausanne. Cafodd y grŵp weld 80 o ffeiliau twrnamaint o archif FIH ac roedd 56 o'r ffeiliau'n cynnwys gwybodaeth berthnasol, gan alluogi Steve i lenwi llawer o'r bylchau yng nghofnodion Cymru.

Roedd y daith yn llwyddiant ysgubol a bydd y cydweithrediad a'r cysylltiadau a ffurfiwyd rhwng pob parti yn sicrhau bod ein ceisiadau ad hoc am wybodaeth yn y dyfodol yn haws.

Diolchwn i Katie Dodd am ei hymwneud a'i dylanwad wrth wthio am yr ymweliad hwn.

### COFNODION DIGIDOL PATRICK ROWLEY — THM

Er gwaethaf ceisiadau niferus, nid yw'r Amgueddfa Hoci wedi darparu copi digidol o gofnodion Cymru Patrick Rowley eto. Mae hwn yn parhau i fod yn gam gweithredu heb ei gwblhau ac mae gohebiaeth bellach wedi'i hanfon. Byddai derbyn y cofnodion hyn yn galluogi i Phil a Steve groesgyfeirio a chwblhau ymhellach y manylion lefel gêm sydd wedi'u casglu eisoes.

### LLYFR DEWIS CYNTAF Y DYNION

Cafodd Llyfr Dewis cyntaf dynion Cymru — sy'n cynnwys y cyfnod cyn a rhwng y Rhyfeloedd Byd — ei fenthyca i'r Amgueddfa Hoci gan Chris Brewer. Byddai sicrhau mynediad i'r llyfr hwn, dros dro hyd yn oed, yn galluogi i Phil a Steve groesgyfeirio ymchwil gyfredol a llenwi bylchau sy'n weddill ar gyfer un o'r cyfnodau mwyaf arwyddocaol yn hanesyddol yn y byd hoci yng Nghymru.

### COFNODION Y MERCHED GEOFF MEDLOW

Mae Steve yn dal i aros am gofnodion Geoff Medlow ar gyfer rhaglen y merched. Mae disgwyl y bydd y rhain yn helpu i lenwi nifer o fylchau yng nghofnod hanesyddol y merched, yn enwedig yn ystod y degawdau ar ôl y rhyfel.

### DIGIDEIDDIO'R ARCHIF

Mae digideiddio'r cofnod llawn yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Nid yw rhai o'r dogfennau hanesyddol pwysicaf ar ffurf ddigidol eto, ac mae'r capasiti i gwblhau'r gwaith hwn yn gyfyngedig. Mae hyn yn rhywbeth y bydd ei angen ar Hoci Cymru i barhau i ddod o hyd i ateb i sicrhau bod yr archif yn cael ei chadw'n briodol ac yn hygyrch.

## Digwyddiad Dathlu Capiau

Ni fydd ein Dathliad Capiau blynyddol — un o'r digwyddiadau mwyaf arbennig ar galendr Hoci Cymru — yn cael ei gynnal yn y gwanwyn eleni. Gyda chyfnod eithriadol brysur o weithgarwch tîm datblygu a pherfformiad yn cael blaenoriaeth, rydyn ni wedi penderfynu symud y digwyddiad eleni i fis Awst neu fis Medi 2026.

Mae hyn yn golygu mwy o gapiau i'w dyfarnu, mwy o straeon i'w hadrodd, a digwyddiad sy'n addo bod yn achlysur mwy arbennig fyth pan fyddwn yn dod â'n cyn-chwaraewyr at ei gilydd. Rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at ddathlu gyda phawb sy'n haeddu cydnabyddiaeth — ac at barhau â'n traddodiad o gysylltu cenhedlaeth bresennol Cymru o chwaraewyr â'r hanes rhyngwladol balch maen nhw'n rhan ohono.





## DIOLCH YN FAWR!

**Mae Prosiect Capiau Hoci Cymru yn llafur cariad — gwaith gofalus, manwl a hynod bersonol a fydd yn para'n hirach na ni i gyd. Mae'n bodoli oherwydd bod dau berson wedi malio digon i wneud i hyn ddigwydd.**

### Phil Bailey a Steve Knight

Diolch yn fawr. Mae'r oriau rydych chi wedi'u rhoi, yr archifau rydych chi wedi ymweld â nhw, y llythyrau rydych chi wedi'u hysgrifennu, a'r sgyrsiau rydych chi wedi'u cael gyda chyn-chwaraewyr rhyngwladol —y tro cyntaf yn aml i'r chwaraewyr hynny gael rhywun yn gofyn iddyn nhw adlewyrchu ar eu cyfraniadau at hoci yng Nghymru — yn creu rhywbeth gwirioneddol barhaol.

### Diolch hefyd i bawb sydd wedi cyfrannu ar hyd y ffordd

Y cyn-chwaraewyr sydd wedi ymateb i geisiadau am wybodaeth, y cysylltiadau sydd wedi rhannu cofnodion a chofroddion, a'r staff yn Hoci Cymru sydd wedi cefnogi'r prosiect dros y blynyddoedd.

**Mae hanes hoci yng Nghymru yn haeddu cael ei adrodd yn iawn. Diolch i'r prosiect hwn, fe fydd hynny'n digwydd.**



# Cydraddoldeb a amrywiaeth

## Cyfrannu offer

- **5** ysgol gynradd ar draws **5** ALl



## Bwyd a Hwyl 2025

De Orllewin = **390** o blant | Gogledd = **210** o blant | De Ddwyrain = **400** o blant

**CYFANSWM** = mwy na **1000** o blant





## Gŵyl Gynradd Abergwaun = mwy na 150 o ddisgyblion

**Yn ddiweddar, darparodd Clwb Hoci Abergwaun ac Wdig gyllid i gael disgyblion o Ysgol Gynradd Croesgoch i Ŵyl Gynradd Abergwaun a chymryd rhan mewn gweithgareddau hoci.**

Yn ddiweddar, darparodd Clwb Hoci Abergwaun ac Wdig gyllid i gael disgyblion o Ysgol Gynradd Croesgoch i Ŵyl Gynradd Abergwaun a chymryd rhan mewn gweithgareddau hoci. Holodd un o chwaraewyr ifanc y clwb bennaeth yr ysgol ynglŷn â'r cyfle i fynychu'r diwrnod hoci, ond yn anffodus ni allai'r ysgol fforddio'r costau teithio.

Mae Croesgoch, ysgol fechan gyda chyllid cyfyngedig, dan bwysau eisoes gyda'i hymrwymiadau teithio i weithgareddau fel nofio a digwyddiadau addysgol eraill. Pan gafod y clwb wybod am hyn, cynhaliodd y pwyllgor bleidlais a phenderfynu cefnogi'r ysgol gyda chyllid i dalu am fws.

Ymwelodd un o aelodau pwyllgor y clwb â'r ysgol ac egluro sut byddai wedi bod wrth ei fodd yn cael yr un cyfle pan oedd yn ddisgybl yng Nghroesgoch. Caniataodd y penderfyniad i 23 o ddisgyblion deithio i Ŵyl Gynradd Abergwaun, gan fwynhau diwrnod gwych yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau hoci llawn hwyl. O ganlyniad, mae Clwb Abergwaun ac Wdig wedi croesawu tri o ddisgyblion yr ysgol i'r clwb! Dosbarthwyd tocynnau aur hefyd i'r disgyblion a fynychodd yr ŵyl, gan gynnig dwy sesiwn hyfforddi am ddim fel cyflwyniad i'r gamp a'r clwb.

Mae'r fenter yma wedi bod yn hynod lwyddiannus hefyd, gyda'r clwb yn derbyn nifer o ymholiadau am ymuno..

## Merched Pen-y-bont ar Ogwr – diwrnod ymgysylltu

**Cynhaliodd y clwb ddigwyddiad i ymgysylltu â disgyblion o amgylch Pen-y-bont ar Ogwr a'r ardaloedd cyfagos, gan rannu hwyl a manteision hoci drwy gynnig amrywiaeth o weithgareddau.**

Hefyd, cynigiwyd bagiau nwyddau, crys-t am ddim a melysion. Sicrhaodd y clwb fod y plant wnaeth fynychu'r digwyddiad yn gwybod sut i ymuno â chlybiau sy'n aelodau o Hoci Cymru. Cefnogwyd y digwyddiad gan LlIH a rhieni.










## Clwb Hoci Caerfyrddin - codi arian:

**Mae ymrwymiad y clwb i wneud hoci yn fwy hygyrch i bawb ac mae angerdd dros gynaliadwyedd yn enghraifft wych o'r effaith y gall ein clybiau ni ei chael yn eu cymunedau lleol.**

Mae "Cronfa Mynediad at Hoci" y clwb wedi cefnogi mwy na 15 o deuluoedd dros y 2 dymor diwethaf ac wedi galluogi iddyn nhw gymryd rhan yn y gamp maen nhw'n ei hoffi a dal ati i fod yn rhan o gymuned CHC.

Eleni, mae noson bingo flynyddol y clwb hefyd wedi mynd tuag at yr ymdrechion codi arian ar gyfer ein tîm Merched Dan 21 a aeth i Chile ar gyfer Cwpan Iau y Byd, dan arweiniad cyn chwaraewr iau CHC, Betsan Thomas.

Yn ogystal, mae eu menter bwced cit wedi cynrychioli rhan fawr o'u hymrwymiad i'r amgylchedd wrth ddarparu ffordd fforddiadwy i fwy na 30 o chwaraewyr roi cynnig ar y gamp cyn ymrwymo i brynu offer newydd.

## Dolenni Clwb Hoci Wrecsam

Mae Clwb Hoci Wrecsam, mewn cysylltiad â Phrifysgol Wrecsam, wedi cynnig sesiynau blasu i ysgolion cynradd lleol a arweiniodd at ŵyl gynradd lwyddiannus Wrecsam, a sesiynau allgyrsiol mewn 2 ysgol uwchradd. Mae'r adran iau wedi cryfhau ac mae rhai sesiynau hyfforddi yn y gymuned wedi gallu digwydd.

# Cynhwysiant

## Ymgysylltu â chynhwysiant (y llynedd)

- Y De Orllewin = mwy na **700**
- Y Gogledd = mwy na **150**
- Y De Ddwyrain = mwy na **200**
- Cyswllt lleol gydag **16** o ysgolion ADY dros **10** awdurdod lleol

## Digwyddiadau

- **6** digwyddiad **Chwaraeon Anabledd Cymru** (Gŵyl Chwaraeon Para – Abertawe a Bangor, Wizz Kidz – Caerfyrddin)
- **2** sesiwn galw heibio gyda **Phrifysgol y Drindod Dewi Sant**
- Gwersyll haf cynhwysiant cyntaf **Cwmtawe** = **17** o gyfranogwr
- **3** ysgol ADY mewn **bwyd a hwyl** (haf)

CHWARAEON ANABLEDD CYMRU DISABILITY SPORT WALES

Mae gennym ni 3 chlwb hoci yng Ngorllewin Cymru sydd mewn camau o gael eu haddysgu a'u paratooi i fod yn glwb cynhwysol i bawb e.e. cardiau adnoddau, offer a hyfforddiant.







Gŵyl Hoci Castell Alun ▶

## Hyfforddwyr a Gwirfoddolwyr (wedi'u hyfforddi ar gyfer ADY / ChAC)

- **3** phrif hyfforddwr
- **7** LlIH







## Gŵyl hoci clwstwr ysgolion cynradd Castell Alun yn ôl ar y calendr

Darparodd Gŵyl Hoci Castell Alun – a gafodd gefnogaeth gan Lucie o Glwb Hoci Buckley a Will o Gwella – gyfle gwerthfawr i dros 80 o ddisgyblion o bum ysgol gynradd leol i brofi a datblygu eu sgiliau hoci. Cyn yr ŵyl, cafodd pob ysgol o leiaf un sesiwn flasu gan hyfforddwr o Glwb Hoci Buckley, lle dysgon nhw'r sgiliau sylfaenol ar iard yr ysgol gynradd.

Daeth y rhaglen i ben gyda'r holl ysgolion yn cymryd rhan mewn gŵyl a gynhaliwyd gan Ysgol Castell Alun ar arwyneb hoci (astroturf) yr ysgol. Roedd 16 o ddisgyblion o Castell Alun, a oedd wedi cwblhau gwobr Arweinwyr Hoci yn gynharach yn y flwyddyn, yn gallu rhedeg y digwyddiad; nhw oedd yn dyfarnu'r gemau ac yn sicrhau bod popeth yn rhedeg yn esmwyth. Mae rhai o'r arweinwyr hoci bellach wedi dechrau helpu yng nghlwb allgyrsiol yr ysgol, tra bod eraill yn cynorthwyo yn eu clybiau lleol.

Cafwyd ymateb gwych i'r digwyddiad, gyda disgyblion yn dangos sgiliau hoci rhagorol yn ogystal â brwdfrydedd, gwaith tîm a mwynhad trwy gydol y dydd.

## Darparodd digwyddiad cyfres 'insport' Disability Sport Wales ym Mangor gyfle i oedolion a phobl ifanc anabl ledled Gogledd Cymru gymryd rhan mewn hoci cynhwysol

Bu Hoci Cymru yn bresennol yn digwyddiad cyfres 'insport' Disability Sport Wales ym Mangor, gyda chymorth Emily o Glwb Hoci Wrecsam Glyndŵr. Cafodd tua 300 o blant o ysgolion ledled Gwynedd gyfle i roi cynnig ar hoci am y tro cyntaf. Roedd y digwyddiad yn cynnig amgylchedd croesawgar a chynhwysol lle gallai disgyblion ddysgu sgiliau hoci sylfaenol, datblygu eu sgiliau symud craidd, magu hyder a chymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol ochr yn ochr â'u cyfoedion.

Cymerodd plant ran mewn gweithgareddau hoci ymarferol a gynlluniwyd i gyflwyno elfennau sylfaenol y gêm. Canolbwyntiodd y sesiynau ar sgiliau syml a diddorol, megis dal y ffon yn ddiogel, symud gyda'r bêl, pasio a rheoli'r bêl; roedd rhai hefyd yn gweithio gyda'i gilydd mewn grwpiau bach. Trefnwyd y gweithgareddau i fod yn gynhwysol, gan alluogi disgyblion â galluoedd a lefelau hyder gwahanol i gymryd rhan yn llwyddiannus.

Mwynhaodd y disgyblion y sesiynau, gyda llawer yn dangos mwy o hyder wrth iddynt ddod yn gyfarwydd â'r offer. Helpodd natur ymarferol y gweithgareddau i'r plant ymgysylltu'n gyflym.

### Arferion Cynhwysol

**Un o brif gryfderau'r digwyddiad oedd ei ddull gweithredu cynhwysol.** Addaswyd y gweithgareddau fel y gallai plant gymryd rhan ar lefel a oedd yn addas iddynt, gan roi pwyslais ar fwynhad, anogaeth a chyflawniad personol yn hytrach na chystadlu. Helpodd hyn i greu amgylchedd positif lle gallai disgyblion roi cynnig ar rywbeth newydd heb unrhyw bwysau.

# Llysgenhadon Ifanc Hoci (LlIH)

2025/26 = 116 LlIH

Efydd = **46** Arian = **40** Aur = **16** Platinwm = **14**

## Grŵp Llywio

CADEIRYDD: **Ned Rees-Wigmore** IS GADEIRYDD: **Rhys Culley** Y CYFRYNGAU: **Rhiannon Bevan**

YSGRIFENNYDD: **Anna Norris** YR IAITH GYMRAEG : **Osian Jacob Benbow** (aelod newydd) CYNHWYSIANT: **Gwen Bennett**

## Digwyddiadau

- Y Sioe Frenhinol /
- Yr Eisteddfod /
- Pencampwriaethau Clwb Cenedlaethol /
- Gwersylloedd hoci
- Pencampwriaethau Sirol /
- Digwyddiadau Chwaraeon Anabledd Cymru /
- Cyfres y Pasg (Cymru v Canada)









## Gweminarau

- Iechyd Meddwl a Lles /
- Cyfryngau Cymdeithasol gyda rygbi'r 6 Gwlad /
- LeadHERship /
- Diogelu
- Cydbwysedd Rhwng Chwaraeon ac Ysgol /
- Bra Tiger EYE /
- Cynhwysiant



# Gwersylloedd

- **Cyfanswm y gwersylloedd a gynhaliwyd: 21**

  Rydyn ni wedi llwyddo i gyflwyno 21 o wersylloedd hoci ledled Cymru. Mae'r gwersylloedd yma wedi darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael mynediad at brofiadau hoci o safon yn ystod gwyliau'r ysgol a chyfnodau y tu allan i'r tymor. Cynhaliwyd gwersylloedd ymgysylltu i'r rhai sy'n dechrau ar eu siwrnai hoci, a gwersylloedd Sgiliau+ i'r chwaraewyr mwy sefydledig hynny oedd eisiau datblygu eu sgiliau presennol a chael profiad o wersylloedd ar gyflymder tebyg i lefel yr RPC a thu hwnt.

- **Cyfanswm y cyfranogwyr: 382**

  Mae cyfanswm o 382 o blant a phobl ifanc wedi cymryd rhan yn ein gwersylloedd, gan ddangos diddordeb mawr a galw cynyddol am gyfleoedd hoci ar lawr gwlad.

- **Cyfartaledd y cyfranogwyr ym mhob Gwersyll: 20**

  Ar gyfartaledd, mae pob gwersyll wedi croesawu ychydig mwy nag 20 o gyfranogwyr, sy'n gynnydd o gymharu â'r llynedd. Mae'r nifer sy'n cymryd rhan yn adlewyrchu hygyrchedd y sesiynau a'n hymdrechion ni i sicrhau meintiau grwpiau y mae posib eu rheoli a chymhareb hyfforddwr:cyfranogwyr isel i sicrhau hyfforddiant o safon a diogelwch.

- **Gwersylloedd yn y Dyfodol**

  Mae gennym ni fwy o wersylloedd gyda rhai lleoliadau newydd wedi'u trefnu yn ystod y gwyliau sydd i ddod. Bydd y rhain yn ein helpu ni i adeiladu ymhellach ar y momentwm presennol a pharhau i gyrraedd cyfranogwyr newydd, yn enwedig mewn ardaloedd sydd wedi'u nodi fel rhai gyda llai o fynediad at gyfleoedd.

- **Gwersylloedd Wedi'u Cwblhau**

  Mae'r gwersylloedd wedi'u cwblhau wedi dangos lle mae angen a diddordeb mewn lleoliadau cymunedol. Cynhaliwyd gwersylloedd Ymgysylltu ar gyfer plant 7 i 12 oed, a gwersylloedd Sgiliau+ ar gyfer plant 13 i 18 oed ar draws y rhanbarthau. Mae cyflwyno hyfforddwr gôl-geidwaid mewn rhai gwersylloedd pan oeddent ar gael wedi bod yn ychwanegiad newydd ac mae wedi cael croeso da iawn, gan gynyddu ein darpariaeth hoci ar bob lefel.

  **Lleoliadau yng Nghymru:** Pwllheli, Bae Colwyn, Dinbych, Wrecsam, Aberhonddu, Cwmtawe, Abergwaun, Caerdydd.

- **Wedi'u cyflwyno mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru**

  Mae'r gwersylloedd wedi'u lleoli'n strategol ar draws 8 ardal wahanol yng Nghymru eleni, gyda ffocws cadarn ar leihau'r amser teithio sydd ei angen i blant gael mynediad i wersyll hoci yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gwaith wedi'i dargedu mewn ardaloedd lle mae cost, daearyddiaeth, neu fynediad at gyfleusterau wedi bod yn rhwystrau i gyfranogiad yn flaenorol. Drwy fabwysiadu dull cymuned yn gyntaf o weithredu, rydyn ni wedi ceisio sicrhau bod mwy o blant yn cael y cyfle i gydio mewn ffon a chymryd rhan yn y gamp, dim ots beth yw eu cefndir neu god post.

- **Ymwneud y LlIH**

  Mae ein Llysgenhadon Ifanc Hoci wedi gwirfoddoli yn y gwersylloedd hoci Hwyl eleni. Mae **30** o LlIH wedi bod yn rhan o'r gwaith ledled y wlad, gan ddatblygu eu sgiliau hyfforddi.




*Mae'r Gwersylloedd Hwyl Hoci wedi cael eu cynllunio ar gyfer chwaraewyr 8 i 13 oed o bob lefel sgiliau, os ydyn nhw'n cydio mewn ffon hoci am y tro cyntaf neu'n ceisio gwella eu gêm.*

## Gwersyll Preswyl — Mai 2025

### Mewn Partneriaeth â Choleg Crist Aberhonddu

Roedd Mai 2025 yn garreg filltir bwysig i'n sefydliad wrth i ni gynnal ein gwersyll hoci preswyl cyntaf erioed, mewn partneriaeth â Choleg Crist Aberhonddu. Daeth y gwersyll â 35 o chwaraewyr ifanc o bob rhan o Gymru ynghyd — 22 o ferched a 13 o fechgyn rhwng 13 a 17 oed — ar gyfer profiad hoci trochi, aml-ddiwrnod.

Cafodd y cyfranogwyr hyfforddiant o safon uchel gan staff o Hoci Cymru a Choleg Crist Aberhonddu, gan gynnig cyfuniad o ddatblygiad technegol, dealltwriaeth tactegol, a meithrin tîm mewn lleoliad preswyl.

Uchafbwynt y gwersyll oedd cyfranogiad chwaraewraig ryngwladol tîm merched Cymru, Amy Cradden, a chwaraewr tîm y dynion, Owen Sutton, y rhoddodd eu hymddangosiadau ysbrydoliaeth a mewnwelediad amhrisiadwy i'r chwaraewyr ifanc, gyda llawer ohonynt yn anelu at gynrychioli Cymru ar lefel iau ac uwch.

Cafodd y gwersyll adborth rhagorol gan gyfranogwyr a rhieni. Crynhodd un mynychwyr y profiad fel hyn:



***"Roeddwn i wrth fy modd yn y gwersyll preswyl — roedd llwyth o ddrilio newydd a helpodd i wella fy sgiliau, yn ogystal â chyfarfod chwaraewyr newydd o bob rhan o Gymru. Byddaf yn bendant yn archebu eto."***

Mae'r gwersyll cyntaf hwn wedi sefydlu'r rhaglen breswyl yn gadarn fel conglfaen ein llwybr datblygu chwaraewyr, ac edrychwn ymlaen at adeiladu ar ei lwyddiant yn y blynyddoedd i ddod.

## Cyfranogiad Cyffredinol

### Gweithgareddau gan Swyddog Datblygu Hoci (HDO)

**Gogledd Cymru:** ***39*** sesiwn ***2,269*** o fynychiadau
**Gorllewin Cymru:** ***21*** sesiwn ***951*** o fynychiadau
**De-ddwyrain Cymru:** ***18*** sesiwn ***1,126*** o fynychiadau
**CYFANSWM:** ***78*** sesiwn ***4,346*** o fynychiadau

### Gweithgareddau gan Lysgenhadon Ifanc

**Gogledd Cymru:** ***62*** sesiwn ***2,362*** o fynychiadau
**Gorllewin Cymru:** ***168*** sesiwn ***7,446*** o fynychiadau
**De-ddwyrain Cymru:** ***111*** sesiwn ***3,654*** ao fynychiadau
**CYFANSWM:** ***341*** sesiwn ***13,462*** o fynychiadau

### Gweithgareddau gan Hyfforddwyr Clybiau

**Gogledd Cymru:** ***8*** sesiwn ***478*** o fynychiadau
**Gorllewin Cymru:** ***27*** sesiwn ***453*** o fynychiadau
**De-ddwyrain Cymru:** ***6*** sesiwn ***167*** o fynychiadau
**CYFANSWM:** ***41*** sesiwn ***1,098*** o fynychiadau

### Gweithgareddau gan Wirfoddolwyr Clybiau

**Gogledd Cymru:** ***6*** sesiwn ***280*** o fynychiadau
**Gorllewin Cymru:** ***2*** sesiwn ***86*** o fynychiadau
**De-ddwyrain Cymru:** ***12*** sesiwn ***265*** o fynychiadau
**CYFANSWM:** ***20*** sesiwn ***631*** o fynychiadau

# CYSTADLU

# Meistri Cymru

## Twrnameintiau a fynychwyd gan dimau Masters Dynion Cymru:

| EBRILL 2025 – MAWRTH 2026 | |
|---|---|
| **Cwpan Celtaidd – Caeredin, yr Alban (Gorffennaf 25)** | |
| M65 | Gorffen yn yr ail safle |
| M70 | Gorffen yn y trydydd safle |
| **4 Gwlad – Caerdydd, Cymru (Mai 25)** | |
| M40 | Gorffen yn yr ail safle |
| **4 Gwlad – Cork, Iwerddon (Mai 25)** | |
| M35 | Gorffen yn y trydydd safle |
| M45 | Gorffen yn y pedwerydd safle |
| M55 | Gorffen yn yr ail safle |
| **4 Gwlad – Cork, Iwerddon (Mai 25)** | |
| M60 | Gorffen yn y pedwerydd safle |
| M65 | Gorffen yn yr ail safle |
| M70 | Gorffen yn y pedwerydd safle |
| M75 | Gorffen yn yr ail safle |
| **4 Gwlad – Caerdydd, Cymru (Gorffennaf 25)** | |
| M50 | Gorffen yn yr ail safle |
| **Pencampwriaeth Ewrop – Valencia, Sbaen (Mai 25)** | |
| M45 | Gorffen yn y pedwerydd safle |
| M50 | Gorffen yn y seithfed safle |
| **Pencampwriaeth Ewrop – Nottingham, Lloegr (Awst 25)** | |
| M55 | Gorffen yn y pumed safle |
| M60 | Gorffen yn y chweched safle |
| **Pencampwriaeth Ewrop – Ludwigsburg, yr Almaen (Awst 25)** | |
| M65 | Gorffen yn y seithfed safle |
| M70 | Gorffen yn y chweched safle |
| M75 | Gorffen yn y pedwerydd safle |
| **Cwpan y Byd Dan Do – Nottingham, Lloegr (Mawrth 26)** | |
| M35 | Gorffen yn y pedwerydd safle |
| M40 | Gorffen yn y pumed safle |
| M45 | Gorffen yn y trydydd safle - Medal Efydd |
| M50 | Gorffen yn yr unfed safle ar ddeg |
| M55 | Gorffen yn y chweched safle |
| M60 | Gorffen yn y nawfed safle |
| M65 | Gorffen yn y pedwerydd safle |



## Twrnameintiau a fynychwyd gan dimau Masters Merched Cymru:

| EBRILL 2025 – MAWRTH 2026 | |
|---|---|
| **Twrnamaint cyfeillgar – Namur, Gwlad Belg (Ebrill 2025)** | |
| W65 / W70 | Gorffen yn y 5ed safle |
| **Pencampwriaeth Ewrop – Valencia, Sbaen (Mai 2025)** | |
| W45 | W45 – Gorffen yn y 6ed safle |
| **Twrnamaint y Pedair Gwlad – Abertawe, Cymru (Mehefin 2025)** | |
| W55 | Gorffen yn y 4ydd safle |
| W60 | Gorffen yn y 4ydd safle |
| W65 | Gorffen yn y 3ydd safle |
| **Pencampwriaeth Ewrop – Valencia, Sbaen (Mehefin 2025)** | |
| W35 | Gorffen yn y 5ed safle |
| W40 | Gorffen yn yr 2il safle – Medal arian |
| **Twrnamaint cyfeillgar – Southgate, Lloegr (Gorffennaf 2025)** | |
| W65 / W70 | Gorffen yn yr 2il safle |
| **Twrnamaint y Pedair Gwlad – Glasgow, yr Alban (Awst 2025)** | |
| W35 | Gorffen yn y 4ydd safle |
| W40 | Gorffen yn yr 2il safle |
| W45 | Gorffen yn y 3ydd safle |
| W50 | Gorffen yn y 4ydd safle |
| **Pencampwriaeth Ewrop – Nottingham, Lloegr (Awst 2025)** | |
| W55 | Gorffen yn y 6ed safle |
| W60 | Gorffen yn y 5ed safle |
| W65 | Gorffen yn y 4ydd safle |

| Cwpan y Byd Dan Do – Nottingham, Lloegr (Mawrth 2026) | |
|---|---|
| W35 | Gorffen yn y 4ydd safle |
| W40 | Gorffen yn y 4ydd safle |
| W60 | Gorffen yn y 3ydd safle - Medal efydd |
| W65 | Gorffen yn y 4ydd safle |




*Menywod yn eu 40au ym Mhencampwriaeth Ewrop yn Valencia, Sbaen*

# Llwybr Sirol

**Cynhaliwyd rhaglen y Llwybr Sirol ledled Cymru, gan gynnwys 11 lleoliad gwahanol (gan gynnwys y Pencampwriaethau Sirol yn Abertawe). Er bod tywydd garw wedi bygwth effeithio ar y rhaglen, mae mwyafrif helaeth yr adborth wedi bod yn gadarnhaol unwaith eto ac yn adlewyrchu'r gwaith caled sydd wedi digwydd y tu ôl i'r llenni i'w chadw i redeg yn esmwyth.**

Unwaith eto, cynhaliwyd y Pencampwriaethau Sirol drwy hanner tymor mis Chwefror a chawsant eu cefnogi'n dda gan nifer o'n Llysgenhadon Ifanc. Drwy eu gwaith diwyd, codwyd mwy na £450 yn gwerthu nwyddau ac ategolion. Fe wnaethant hefyd gyfrannu'n aruthrol wrth helpu i redeg y digwydd ar ochr y cae a'r stondinau ymgysylltu (dartiau a gwn cyflymder).

Cafodd y digwyddiad yma ei fynychu'n dda hefyd gan rieni ac mae'n dangos ansawdd y ddarpariaeth sydd yn ei lle ar ddiwedd rhaglen hyfforddi hir. Cafodd pob sir 8 sesiwn hyfforddi a gemau wedi'u hamserlennu, gan ddarparu mwy na 12 awr o amser cyswllt ym mhob sir i hyfforddwyr a chwaraewyr - mae hyn yn ychwanegol at y ddarpariaeth ysgol / clwb sydd eisoes yn ei lle i'r chwaraewyr.

Roedd tua 900 o enwebiadau ar draws pob sir ac arweiniodd hyn at 500 o gyfranogwyr (tua 62 ym mhob sir), arwydd ardderchog ar gyfer datblygiad chwaraewyr wrth symud ymlaen yn Llwybr Cymru. Fe drosodd hyn ymhellach i 180 o chwaraewyr wedi'u henwebu ar gyfer y Rhaglen Datblygu Rhanbarthol. Mae hyn yn arwydd o gadw 55% o enwebu i gymryd rhan, a chyfradd symud drwodd o 36% o'r Sir i'r Rhanbarth.



*Merched Dan 15 Eryri*

Trafodwyd pob agwedd ar y Llwybr Sirol mewn trafodaeth diwedd tymor. Dyma'r prif bwyntiau trafod:

1 Proses Cofrestru ac Enwebu Chwaraewyr

2 Datblygu'r Gweithlu ac Ymgysylltu â Hyfforddwyr

3 Cynllunio Cyfleusterau

4 Gweinyddu, Cyfathrebu a Chit

5 Adolygu'r Pencampwriaethau Sirol ac Adnabod Talent

1. **Proses Cofrestru ac Enwebu Chwaraewyr**
   Mae'r ymud oddi wrth hunanenwebu tuag at enwebiadau hyfforddwyr ac athrawon wedi bod yn gam cadarnhaol eleni. Fodd bynnag, mae pryderon diogelu data o hyd ynghylch y wybodaeth sy'n cael ei chasglu wrth gofrestru, a dylid archwilio cynnig i ganiatáu i rieni gwblhau gwybodaeth sensitif yn uniongyrchol. Mae ehangu'r rhanbarth ANT i gynnwys rhai o chwaraewyr Dyfed dan ystyriaeth hefyd i reoli'r niferoedd sy'n cymryd rhan.

2. **Datblygu'r Gweithlu ac Ymgysylltu â Hyfforddwyr**
   Mae ehangu'r gweithlu hyfforddi yn flaenoriaeth, gan fod safonau gofynnol yn cael eu cyfaddawdu o bryd i'w gilydd oherwydd cyfyngiadau argaeledd. Mae angen ffurfioli presenoldeb hyfforddwyr mewn cyfarfodydd a'i wneud yn orfodol, gyda newidiadau i amserlenni cyfarfodydd i gyd-fynd yn well â'r ymrwymiadau hyfforddi presennol. Rhaid i bob hyfforddwr fodloni'r Safonau Gweithredu Gofynnol (SGG) cyn dechrau'r tymor nesaf.

**3. Cynllunio Cyfleusterau**

Mae'r penderfyniadau o ran cyfleusterau ar gyfer y tymor nesaf yn eu lle i raddau helaeth, gan gynnwys Cwmbrân ar gyfer Gwent yn seiliedig ar adborth rhieni. Mae'r cynllunio ar gyfer Gogledd Cymru yn gofyn am hyblygrwydd, gyda phedwar lleoliad posibl yn cael eu hasesu yn seiliedig ar ddaearyddiaeth cofrestru chwaraewyr. Mae addasrwydd llifoleuadau yr Wyddgrug ar gyfer sesiynau gyda'r nos yn parhau i fod yn fater agored.

**4. Gweinyddu, Cyfathrebu a Chit**

Mae angen sefydlu strwythur cyfathrebu cyson a chlir - wedi'i ganoli ar Spond - o ddechrau'r tymor. Dylid ailgyfeirio Cwestiynau Cyffredin a gwybodaeth am y llwybr i'r wefan i leihau ymholiadau ad hoc. Dylid cadarnhau'r cit i'w archebu ar ddechrau'r tymor, gyda gwasanaeth argraffu ar alw yn cael ei ystyried i fynd i'r afael â heriau meintiau a stoc.

**5. Adolygu'r Pencampwriaethau Sirol ac Adnabod Talent**

Cafodd y Pencampwriaethau groeso da yn gyffredinol, gyda fformatau 11 bob ochr yn cael eu canmol ar ddiwrnod y bechgyn a pherfformiadau cadarn ar draws grwpiau oedran y merched. Mae'r gwelliannau sydd wedi'u cynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys cystadleuaeth Plât ar gyfer siroedd y safleoedd is, y chwaraewyr yn cerdded allan ar gyfer y rowndiau terfynol, a chyfweliadau ar ôl gemau ar gyfer cyfryngau cymdeithasol. Dylid darparu gwell adnoddau ar gyfer adnabod talent yn y digwyddiad, gyda'r staff yn sicrhau eu bod yn aros ar gyfer y rowndiau terfynol lle mae'r chwaraewyr o'r safon uchaf yn cael eu harddangos.

## Casglu taliadau

Mae anawsterau wedi codi yn y rhaglen o ran casglu taliadau drwy gydol y rhaglen. Mae cost y Llwybr yn parhau i fod yn gynnig da iawn ar gyfer y gwariant sydd ei angen ac nid ydym yn rhagweld unrhyw newidiadau yn y gost ar gyfer y tymor nesaf.



*Glam Valleys v Merched Dan 15 Gwent*



*Glam Valleys v Merched Dan 17 Gwent*



# GOLWG GYFFREDINOL AR Y RHAGLEN

**11** **lleoliadau** ledled Cymru - 10 lleoliad hyfforddi ynghyd â Phencampwriaethau'r Sir

**8** **sesiwn hyfforddi** fesul sir, ynghyd â gemau wedi'u trefnu drwy gydol y tymor

**12+** **awr o gyswllt** - fesul sir i hyfforddwyr/chwaraewyr, yn ychwanegol at weithgareddau ysgol/clwb

**£450** **a godwyd** gan Lysgenhadon Ifanc ym Mhencampwriaethau'r Sir drwy werthu nwyddau

## PENCAMPWRIAETHAU'R SIR

PARC CHWARAEON BAE ABERTAWE




## LLEOLIADAU HYFFORDDI

- Elba, Freedom Leisure / Abertawe
- Canolfan Hamdden Crymych / Sir Benfro
- Ysgol Gyfun Brynteg / Pen-y-bont ar Ogwr
- Coleg Crist / Aberhonddu
- Stadiwm Cwmbrân / Cwmbran
- Ysgol Uwchradd Fitzalan / Caerdydd
- Ysgol Godre'r Berwyn / Bala
- Hamdden Dinbych / Denbigh
- Canolfan Hamdden yr Wyddgrug / Mold
- Canolfan Hamdden Sue Noake / Ystrad Mynach

## BLAENORIAETHAU DATBLYGU AR DDIWEDD Y TYMOR

### Cofrestru ac enwebu chwaraewyr
- Symud at enwebiadau gan hyfforddwyr ac athrawon – cam cadarnhaol
- Adolygu diogelu data wrth gofrestru
- Rhieni i gyflwyno gwybodaeth sensitif yn uniongyrchol
- Ystyried ehangu rhanbarth ANT

### Cynllunio Cyfleusterau
- Cadarnhawyd Cwmbrân ar gyfer Gwent
- Aseswyd 4 lleoliad ar gyfer Gogledd Cymru
- Dewis yn seiliedig ar leoliad daearyddol y chwaraewyr
- Adolygu goleuadau llifogydd yr Wyddgrug

### Gweithlu a Datblygu Hyfforddwyr
- Ehangu'r gweithlu hyfforddi
- Ffurfioli presenoldeb gorfodol hyfforddwyr
- Aildrefnu cyfarfodydd i weddu i hyfforddwyr
- Rhaid i bob hyfforddwr gwrdd â SGL cyn y tymor

### Gweinyddiaeth, Cyfathrebu ac Offer
- Cyfathrebu cyson drwy Spond o'r diwrnod cyntaf
- Cyfeirio cwestiynau cyffredin at y wefan
- Cyfuno archebion offer ar ddechrau'r tymor
- Archwilio opsiynau argraffu ar alw ar gyfer meintiau

### Pencampwriaethau ac adnabod talent
- Derbyniwyd y fformat 11-bob-ochr yn dda
- Cerdded allan i'r cae a chyfweliadau ar ôl y gêm
- Cyflwyno cystadleuaeth y 'Plât'
- Staff i aros ar gyfer y gemau terfynol at ddibenion adnabod talent

## FFUNNEL DATBLYGU CHWARAEWYR

O'r broses enwebu i'r Rhaglen Datblygu Ranbarthol




**55%** O ENWEBIADAU I GYFRANOGIAD

**36%** O LEFEL SIROL I LEFEL RANBARTHOL

# Rhaglen Sirol

**Yn 2025/2026, cynhaliwyd trydydd cylch y Rhaglen Sirol. Gyda momentwm, twf a datblygiad parhaus y rhaglen, gwelsom eleni ehangu Rhaglen Sirol y Bechgyn i 11 bob ochr. Gyda thua 900 o enwebiadau a bron i 500 o gyfranogwyr wedi'u gwasgaru ar draws 8 sir, roedd yn wych gweld twf hoci ar draws y Sir mewn Pencampwriaethau Sirol hynod gystadleuol.**

Yn dilyn Rhaglen Sirol lwyddiannus, enwebwyd 180 o chwaraewyr i'r Rhaglen Ddatblygu Ranbarthol newydd.

**DIOLCH O GALON I'R HOLL CHWARAEWYR, Y RHIENI A'R HYFFORDDWYR AM EU HYMRWYMIAD PARHAUS I'R LLWYBR.**

## Dyma ganlyniadau Pencampwriaethau Sirol 2025/2026:

**1**

BECHGYN: *Y Gogledd Ddwyrain*
MERCHED D15: *Eryri*
MERCHED D17: *Eryri*

**2**

BECHGYN: *Eryri*
MERCHED D15: *Caerdydd*
MERCHED D17: *Caerdydd*

**3**

BECHGYN: *Caerdydd*
MERCHED D15: *Y Gogledd Ddwyrain*
MERCHED D17: *Arfordir y De*















| HYFFORDDWYR SIROL | |
|---|---|
| **Tom Viney** | **PH Bechgyn Afan Nedd Tawe** |
| Ned Rees Wigmore | HC Bechgyn Afan Nedd Tawe |
| **Emily Haywood** | **PH Merched D15 Afan Nedd Tawe** |
| **Carys Shaw** | **PH Merched D17 Afan Nedd Tawe** |
| **Robert Webb** | **PH Bechgyn D17 Dyfed** |
| **Robert Codd** | **PH Bechgyn D15 Dyfed** |
| **Lucy Griffiths** | **PH Merched D15 Dyfed** |
| Evie Taylor | HC Merched D15 Dyfed |
| Emrys Plant | HC Merched D15 Dyfed |
| Ella Moir | HC Merched D15 Dyfed |
| **Lucy Griffiths** | **PH Merched D17 Dyfed** |
| Simon Roberts | HC Merched D17 Dyfed |
| **Mollie Tuff / George Marshall** | **PH Bechgyn Arfordir y De** |
| **Graeme Jones** | **PH Merched D15 Arfordir y De** |
| Tim Nicholls | HC Merched D15 Arfordir y De |
| **Graeme Jones** | **PH Merched D17 Arfordir y De** |
| Tim Nicholls | HC Merched D17 Arfordir y De |
| **Jay Wilyman** | **PH Bechgyn Caerdydd** |
| **Judith Livesey** | **PH Merched D15 Caerdydd** |
| Euan James | HC Merched D15 Caerdydd |
| **Judith Livesey** | **PH Merched D17 Caerdydd** |
| Euan James | HC Merched D17 Caerdydd |
| **Tim Jones** | **PH Bechgyn Gwent** |
| **Chris Williams** | **PH Merched D15 Gwent** |
| Hayley Jenkins | HC Merched D15 Gwent |

| HYFFORDDWYR SIROL | |
|---|---|
| **Chris Williams** | **PH Merched D17 Gwent** |
| Hayley Jenkins | HC Merched D15 Gwent |
| **Mark Zeigler** | **PH Bechgyn Cymoedd Morgannwg** |
| Jamie Everett | HC Bechgyn Cymoedd Morgannwg |
| Jess Owens | Cydlynydd Cymoedd Morgannwg |
| **Mark Zeigler** | **PH Merched Cymoedd Morgannwg** |
| Sarah Rawlins | HC Merched Cymoedd Morgannwg |
| Michaela Gallie | HC Merched Cymoedd Morgannwg |
| **Liam Bell** | **PH Bechgyn Y Gogledd Ddwyrain** |
| Simon Samuels | HC Bechgyn y Gogledd Ddwyrain |
| Stephen Bullock | HC Bechgyn y Gogledd Ddwyrain |
| **Tom Williamson** | **PH Merched D15 y Gogledd Ddwyrain** |
| Luke Doughty | HC Merched D15 y Gogledd Ddwyrain |
| **Tom Williamson** | **PH Merched D17 y Gogledd Ddwyrain** |
| Luke Doughty | **HC Merched D17 y Gogledd Ddwyrain** |
| **Luke Edwards** | **PH Bechgyn Eryri** |
| **Lynda Bennett** | **PH Merched D15 Eryri** |
| Ryan Goddard | HC Merched D15 Eryri |
| **Ellis Lloyd-Jones** | **PH Merched D17 Eryri** |





# Enillwyr Cystadlaethau 2025/26

## Cystadlaethau Clwb

| | |
|---|---|
| Dan Do y Merched | Caerdydd a'r Met |
| Dan Do i Dynion / Agored | Caerdydd a'r Met |
| Pencampwriaeth y Merched | Penarth |
| Pencampwriaeth y Dynion / Agored | Caerdydd a'r Met |
| Tlws y Merched | Dinas Bangor |
| Tlws y Dynion / Argoed | Gwent |
| Her y Merched | Rhuthun |
| Her y Dynion / Argoed | Dysynni |
| Pencampwriaeth Meistri'r Merched | Gogs Eryri |
| Tlws Meistri'r Merched | Y Eirth |
| Dynion / Meistri'r Agored | Eglwys Newydd |

## Cystadlaethau Ieuenctid

| | |
|---|---|
| Merched D18 | Caerdydd a'r Met |
| Bechgyn D18 / Agored | Abertawe |
| Merched D16 | Caerdydd a'r Met |
| Bechgyn D16 / Agored | Eglwys Newydd |
| Merched D14 | Caerdydd a'r Met |
| Bechgyn D14 / Agored | Eglwys Newydd |
| Merched D12 | Eglwys Newydd |
| Bechgyn D12 | Abertawe |














## Cystadlaethau Eurohockey

| | |
|---|---|
| Tlws Clybiau EuroHockey II Merched 2025 | Abertawe 7fed safle |
| Her Clybiau EuroHockey I Merched 2025 | Caerdydd a'r Met, safle 1af |
| Tlws Clybiau EuroHockey I Dynion 2025 | Caerdydd a'r Met, 3ydd safle |
| Her Clybiau EuroHockey I Dynion 2025 | Eglwys Newydd, tynnodd yn ôl |
| Her Clybiau Dan Do EuroHockey II, Merched, 2026 | Caerdydd a'r Met, safle 1af |
| Her Clybiau Dan Do EuroHockey I, Dynion 2026 | Caerdydd a'r Met, 8ydd safle |
| Tlws Clybiau EuroHockey II Merched 2026 | Caerdydd a'r Met, 6ed safle |
| Her Clybiau EuroHockey I Merched 2026 | Penarth, safle 1af |
| Tlws Clybiau EuroHockey I Dynion 2026 | Caerdydd a'r Met, safle 1af |
| Her Clybiau EuroHockey II Dynion 2026 | Abertawe, 5ed safle |

## Cystadlaethau Ysgolion

| | |
|---|---|
| Merched Ysgol D18 | Ysgol y Gadeirlan |
| Bechgyn Ysgol D18 / Agored | Coleg Crist Aberhonddu |
| Bechgyn Ysgol D18 / Agored 7 bob ochr) | Brynrefail |
| Merched Ysgol D16 | Ysgol Howell's |
| Bechgyn Ysgol D16 / Agored | Dinbych |
| Bechgyn Ysgol D16 / Agored 7 bob ochr | Llandeilo Ferwallt |
| Merched Ysgol D14 | Ysgol Howell's |
| Bechgyn Ysgol D14 / Agored | Ysgol Glantaf |
| Merched Ysgol D12 | Ysgol Howell's |
| Bechgyn Ysgol D12 | Coleg Crist Aberhonddu |










# Y Gystadleuaeth mewn Rhifau 2025/26

## PENAWDAU

**29**
*Cyfanswm y cystadlaethau a gydlynwyd*
i fyny o **27** y flwyddyn flaenorol

**492**
*Nifer y timau a gystadlodd*
i fyny o **427** y flwyddyn flaenorol

**6,174**
*Nifer y chwaraewyr a gymerodd ran*
i fyny o **5506** y flwyddyn flaenorol

## CLWB

**19**
*Cyfanswm y cystadlaethau a gydlynwyd*

**218**
*Nifer y timau a gystadlodd*
i fyny o **175** y flwyddyn flaenorol

**2,930**
*Nifer y chwaraewyr a gymerodd ran*
i fyny o **2488** y flwyddyn flaenorol

## YSGOL

**10**
*Cyfanswm y cystadlaethau a gydlynwyd*
i fyny o **8** y flwyddyn flaenorol

**274**
*Nifer y timau a gystadlodd*
i fyny o **252** y flwyddyn flaenorol

**3,244**
*Nifer y chwaraewyr a gymerodd ran*
i fyny o **3018** y flwyddyn flaenorol

## FFRYDIO BYW (VEO)

**258**
*Nifer y gemau a ffrydiwyd*

**4,655**
*Nifer y gwylwyr*

**7740**
*Cyfanswm y munudau o hoci*

**2090**
*Nifer y dilynwyr*

## PLATFFORM CYSTADLAETHAU (TOURNIFY)

**42** *Nifer y cystadlaethau a reolwyd ar y platfform*

**12,125** *Nifer yr ymwelwyr unigryw*





# Cymdeithas Dyfarnwyr Hoci Cymru

- Lansiwyd cwrs dyfarnu **Lefel 1 ar-lein**
- **11 o ddysgwyr** yn cofrestru yn y mis cyntaf a chyfradd cwblhau o **36%**
- Cynhaliwyd **8 gweminar i ddyfarnwyr**, gan gynnwys seminarau ar y rheolau a gweminar ar hoci dan do
- **341** o gyfranogwyr
- Cyhoeddwyd **158 o drwyddedau dyfarnwr**
- Casglwyd **ffioedd dyfarnwyr** fesul tîm
- Camodd **Mike Cleverley** i lawr fel Trysorydd WHUA

*Diolch i'r holl ddyfarnwyr, swyddogion a gweinyddwyr sy'n rhoi o'u hamser i sicrhau ein bod ni i gyd yn gallu chwarae ein camp.*



## Penodiadau EuroHockey 2025 / 2026

| Dyddiad | Enw'r gystadleuaeth | Enw'r dyfarnwr/swyddog | Rôl |
|---|---|---|---|
| EBRILL 2025 | Rownd yr 8 Olaf EHL (Dynion) a Rownd y 12 Olaf (Menywod) yn Den Bosch (NED) | Clare Barwood | Dyfarnwr EHF |
| | Tlws Clybiau Menywod Awyr Agored 1 yn Rakovnik (CZE) | John Taylor | Swyddog Technegol |
| | Tlws Clybiau Menywod Awyr Agored 2 yn Glasgow (SCO) | Cathy Wright<br>Moli Smith | Rheolwr Dyfarnwyr<br>Dyfarnwr |
| | Her Clybiau Menywod Awyr Agored 1 yn Alanya (TUR) | Chloe McCall | Dyfarnwr |
| MEHEFIN 2025 | Tlws Clybiau Dynion Awyr Agored 2 yn Lousada (POR) | Karen Evans | Rheolwr Dyfarnwyr |
| | Her Clybiau Dynion Awyr Agored 2 yn Siauliai (LTU) | Kevin Roberts | Dyfarnwr EHF |
| GORFFENNAF 2025 | Pencampwriaeth Dynion Dan 18 Awyr Agored II yn Alanya (TUR) | Liam Wade | Dyfarnwr |
| | Pencampwriaeth Menywod Dan 18 Awyr Agored II yn Glasgow (SCO) | Mark Staunton<br>Liv Turner | Rheolwr Dyfarnwyr<br>Dyfarnwr |
| | Pencampwriaeth Dynion Awyr Agored II yn Lousada (POR) | Christian Phillips Adams | Dyfarnwr |
| | Pencampwriaeth Menywod Awyr Agored II yn Gniezno (POL) | Chris Brewer<br>Chloe McCall | Cynrychiolydd Technegol<br>Dyfarnwr |
| AWST 2025 | Pencampwriaethau Dynion a Menywod Awyr Agored yn Mönchengladbach (GER) | John Taylor | Barnwr |
| HYDREF 2025 | EHL Dynion Awyr Agored KO16 yn Barcelona (ESP) | Kevin Roberts | Dyfarnwr EHF |
| IONAWR 2026 | Pencampwriaeth Dynion Dan Do yn Heidelberg (GER) | Kevin Roberts | Dyfarnwr EHF |
| | Pencampwriaeth Menywod Dan Do yn Prague (CZE) | Abby MacArthur | Dyfarnwr EHF |
| | Pencampwriaeth Menywod Dan Do II yn Lousada (POR) | Christian Phillips Adams | Dyfarnwr |
| CHWEFROR 2026 | Her Clybiau Dynion Dan Do I yn Sofia (BUL) | Harri Pritchard Evans<br>Cathy Wright<br>George Marshall | Barnwr<br>Rheolwr Dyfarnwyr<br>Dyfarnwr |
| | Her Clybiau Dan Do i Ddynion a Menywod II yn Vantaa (FIN) | John Taylor<br>Chloe McCall | Swyddog Technegol<br>Dyfarnwr |
| | Cwpan Clybiau Dan Do i Fenywod yn Swarzędz (POL) | Abby MacArthur | Dyfarnwr EHF |
| | Tlws Clybiau Dan Do i Fenywod yn Lambersart (FRA) | Clare Barwood | Dyfarnwr EHF |

# PERFFORMIO

# Crynodeb y Cyfarwyddwr Perfformiad o 2025

**Mae tymor 2025 wedi bod yn flwyddyn eithriadol gadarnhaol a blaengar ar draws ein rhaglenni perfformiad, wedi'i nodi gan dwf parhaus, canlyniadau cystadleuol cadarn, a datblygiad ystyrlon ar hyd y llwybr.**

Ar draws rhaglenni'r dynion a'r merched, rydyn ni wedi gweld llwyddiant sylweddol ar y llwyfan rhyngwladol. Sicrhaodd y ddau dîm hŷn eu bod yn gorffen ar y podiwm mewn cystadlaethau Ewropeaidd, gan nodi carreg filltir bwysig yn ein cynnydd a sicrhau dychwelyd i Adran A Ewrop. Mae'r perfformiadau hyn yn adlewyrchu'r cysondeb, y gwydnwch a'r ansawdd sydd wedi bod yn adeiladu ar draws y cylch. Yn ogystal, cymhwysodd rhaglen y dynion ar gyfer y Cwpan Byd nesaf, gan gynrychioli cam mawr arall ymlaen a thystiolaeth o ddatblygiad parhaus y grŵp. Yn galonogol, mae'r ddau dîm wedi dangos eu gallu hefyd i gystadlu'n gryf yn erbyn gwrthwynebwyr uwch eu safle yn y byd, gan atgyfnerthu cred a hyder yn ein cyfeiriad teithio.

Un uchafbwynt penodol yn ystod y flwyddyn oedd llwyddiant ein rhaglenni iau, gan arwain at ymgyrch Cwpan Iau y Byd hynod gadarnhaol. Rhoddodd hyn brofiad amhrisiadwy i'n hathletwyr ni ar lwyfan y byd a dangosodd y cryfder a'r potensial o fewn ein llwybr. Mae cymryd rhan mewn cystadlaethau ar lefel uchel yn parhau i fod yn elfen hanfodol o ddatblygiad hirdymor chwaraewyr.

Mae esblygiad parhaus ein strwythur llwybr wedi bod yn ganolog i'r cynnydd hwn. Eleni, gwelwyd datblygiad pellach yn ein model Grŵp Oedran Rhanbarthol a Chenedlaethol (GOCiau), gan gynnwys cyflwyno carfanau Dyhead ac Aeddfedu. Mae'r rhaglenni hyn yn darparu cerrig camu cliriach a mwy cydlynol i chwaraewyr, gan sicrhau ein bod yn cefnogi athletwyr yn y cam cywir o'u siwrnai wrth adeiladu dyfnder ar draws y llwybr. Bydd y dull hwn o weithredu'n allweddol wrth gynnal llwyddiant hirdymor a chryfhau'r pontio i hoci rhyngwladol hŷn.

Wrth i ni edrych ymlaen at dymor 2026/27, rydyn ni'n gwneud hynny o safle cryf. Mae'r sylfeini rydyn ni wedi'u gosod—ar draws datblygu chwaraewyr, cyfle i gystadlu, a chydlyniant y llwybr - yn rhoi hyder i ni yn ein gallu i barhau i symud ymlaen a chyflawni ein huchelgeisiau ar y cyd.

Yn olaf, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r holl chwaraewyr, y rhieni, yr hyfforddwyr a'r staff cefnogi sydd wedi cyfrannu at lwyddiant ein rhaglenni ni eleni. Mae eich ymrwymiad, eich egni a'ch cefnogaeth yn parhau i fod yn hanfodol i bopeth rydyn ni'n ei wneud ac rydyn ni'n edrych ymlaen at barhau â'r siwrnai hon gyda'n gilydd.



**Katie Glynn**
*Cyfarwyddwr Perfformiad*

## Staff Hŷn

| DYNION | |
|---|---|
| Danny Newcombe | Prif Hyfforddwr |
| Martin Schouten | Hyfforddwr Cynorthwyol |
| Luke Hawker | Hyfforddwr Cynorthwyol |
| David Ames | Hyfforddwr Cynorthwyol (wedi gadael bellach) |
| Gwyn Williams | Rheolwr |
| Debbie Mason | Ffisiotherapydd |
| Mark Hill | Cryfder a Chyflyru |

| MERCHED | |
|---|---|
| Kevin Johnson | Prif Hyfforddwr |
| Walid Abdo | Hyfforddwr Cynorthwyol / Prif Hyfforddwr D21 |
| Matty Sears | Hyfforddwr Cynorthwyol |
| Chris Davis | Hyfforddwr Cynorthwyol (India WCQ / Prif Hyfforddwr Merched Dan 21) |
| Rebecca Daniels | Rheolwr |
| Samantha Walker | Ffisiotherapydd |
| Rhiana Galvin | Dadansoddydd Perfformiad |
| Sam Thirwell | Cryfder a Chyflyru |

| CEFNOGAETH PERFFORMIAD | |
|---|---|
| Connor Hetherton | Pennaeth Cryfder a Chyflyru |
| Jonny Harper | Pennaeth Gwasanaethau Meddygol |

# Dathlu 2025/26: Crynodeb o Berfformiad

**Mae 2025/26 wedi bod yn flwyddyn eithriadol arall i'n carfanau perfformiad, yn llawn cerrig milltir rhyngwladol, canlyniadau hanesyddol, ac arddangosfa glir o gynnydd ar draws ein rhaglenni hŷn ac iau. Mae'r flwyddyn wedi gweld timau hoci Cymru'n parhau i godi drwy'r rhengoedd ar lwyfan Ewrop a'r byd, gan osod safonau uwch fyth ar gyfer y tymhorau sydd i ddod.**

## Dynion Hŷn

Cafodd Carfan Dynion Cymru un o'u blynyddoedd mwyaf nodedig hyd yma. Ar ôl perfformiad cadarn yng Nghwpan y Cenhedloedd ym Malaysia, lle daethant yn 5ed a pherfformio i safon uchel yn erbyn sawl gwlad uwch eu safle, parhaodd y momentwm i adeiladu wrth fynd i Bencampwriaeth II EwroHoci 2025.

Ym Mhortiwgal, dangosodd y garfan gysondeb a hunanfeddiant eithriadol, gan arwain at fuddugoliaeth ddramatig yn erbyn Iwerddon i gipio'r aur. Sicrhaodd y fuddugoliaeth yma nid yn unig ddyrchafiad iddyn nhw i Adran A y Bencampwriaeth EwroHoci yn 2027 ond hefyd cymhwysedd ar gyfer Rowndiau Rhagbrofol Cwpan y Byd 2026.

Yn gynnar yn 2026, teithiodd y tîm i Santiago, Chile, ar gyfer Rowndiau Rhagbrofol Cwpan y Byd — cystadleuaeth ddwys yn cynnwys rhai o dimau cryfaf y byd. Ar ôl cael eu dewis i grŵp heriol, roedd y tîm yn wynebu gêm yr oedd rhaid ei hennill yn erbyn yr Alban, gan orfod ennill o dair gôl i symud ymlaen. Gan ymateb i'r her, fe wnaethant hynny yn union yn gwbl ragorol.

Seliodd buddugoliaeth gyffrous o 2-1 yn erbyn Gwlad Pwyl yn y gêm ddosbarthu y 3ydd safle yn gyffredinol i'r tîm ac — yn bwysicach fyth — cymhwyso ar gyfer Cwpan y Byd 2026, a fydd yn cael ei chynnal yn yr Iseldiroedd a Gwlad Belg ym mis Awst 2026. Mae hyn yn nodi carreg filltir hanesyddol arall: mae Dynion Cymru bellach wedi cymhwyso ar gyfer eu hail Gwpan Byd erioed, cyflawniad sy'n tynnu sylw at benderfyniad, ansawdd a thwf y tîm ar y llwyfan rhyngwladol.



> ***"Mae wedi bod yn flwyddyn hynod lwyddiannus i dîm hŷn y dynion. Cystadlu am y tro cyntaf yng Nghwpan y Cenhedloedd, ennill adran B Ewrop i sicrhau ein bod yn cymhwyso ar gyfer Pencampwriaethau Adran A Ewrop yr haf nesaf yn Llundain a selio ein lle yng Nghwpan y Byd yr haf yma gydag ymgyrch gymhwyso nodedig yn Chile. Mae'r garfan yn parhau i fynd o nerth i nerth, gyda chwaraewyr iau yn camu ymlaen ac yn gwneud argraff wirioneddol ar lefel uwch. Mae gennym ni amserlen brysur o'n blaen dros yr haf wrth i ni geisio rhoi ein hunain yn y sefyllfa orau i gystadlu â'r timau gorau yn y byd ym mis Awst."***
>
> Ben Francis






## Merched Hŷn

**Cafodd Tîm Merched Cymru flwyddyn nodedig hefyd, gan barhau i gryfhau eu presenoldeb rhyngwladol gyda pherfformiadau rhagorol a chanlyniadau'n torri recordiau.**

Dechreuodd eu hymgyrch gyda medal efydd wych yng Nghwpan Cenhedloedd II FIH yng Ngwlad Pwyl, gan arddangos eu gallu i gystadlu yn erbyn - a threchu - gwledydd mewn safloedd llawer uwch. Gan ddychwelyd i Wlad Pwyl yn ddiweddarach yn y flwyddyn ar gyfer Pencampwriaeth II EwroHoci, cymerodd y garfan gam arall ymlaen, gan gyrraedd y rownd derfynol a methu â chipio'r aur o drwch blewyn ar ôl colli 2-1 i'r Eidal. Sicrhaodd y fedal arian honno ddyrchafiad i Adran A Pencampwriaeth EwroHoci yn 2027 — y tro cyntaf i'r tîm ddychwelyd i'r haen uchaf mewn 22 mlynedd — a chymhwyso ar gyfer Rowndiau Rhagbrofol Cwpan y Byd 2026.

Ar ddechrau 2026, teithiodd y tîm i Hyderabad, India, ar gyfer Cwpan y Byd. Wedi'u dewis i grŵp caled ochr yn ochr â'r tîm cartref, sef India, yr Alban, ac Uruguay, perfformiodd y garfan yn ddewr ac yn gyson, gan wthio'r Alban i'r eithaf a pherfformio'n hynod gystadleuol yn erbyn India ar dir cartref.

Parhaodd eu perfformiad yn y croesi drosodd, lle cofnodwyd buddugoliaeth hanesyddol gyntaf erioed yn erbyn Corea, tîm chwe safle yn uwch. Gorffennodd y merched Rowndiau Rhagbrofol Cwpan y Byd yn y 6ed safle, sy'n gwbl ragorol, gan brofi nid yn unig eu gallu i gystadlu â goreuon y byd ond hefyd eu hyder a'u haeddfedrwydd cynyddol ar y llwyfan mwyaf.

> ***"Mae wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus a gwerth chweil i'n tîm ni. Fe wnaethon ni gasglu medalau mewn dau o'n tri thwrnamaint rhyngwladol, ennill dyrchafiad i Bencampwriaethau Ewrop, a gwella ein safle yng Ngêmau Rhagbrofol Cwpan y Byd. Fe wnaeth sawl chwaraewr eu hymddangosiad cyntaf ac maen nhw wedi ychwanegu cryfder gwirioneddol at y garfan, ac rydyn ni'n gobeithio adeiladu ar y momentwm cadarnhaol yma wrth i ni fynd i Bencampwriaethau Adran A Ewrop yn Llundain y flwyddyn nesaf."***
>
> Beth Bingham

# Cerrig Milltir / Capiau / Cyflawniadau

## CAPIAU **CYNTAF**

Sam Welsh | Ffion Horrell | Beth Peers | Katie Partridge | Lottie Atkinson
Tilly Edwards | Amy Hughes | Holly Done | Jamie Bulbring

## **50FED** CAP

Jolyon Morgan | Gareth Griffiths

## **150FED** CAP

Gareth Furlong

## **150TH** CYFUN

Daniel Kyriakides

## **200FED** CYFUN

Sarah Jones

## **CHWARAEWR Y TWRNAMAINT**

### PENCAMPWRIAETH EWROHOCI II

Betsan Thomas | Jacob Draper

## **100FED** GÔL RYNGWLADOL

Gareth Furlong

# Cynrychioli Prydain Fawr

## DYNION A MERCHED **HŶN**

Jacob Draper | Fred Newbold | Toby Reynolds-Cotteril
Gareth Furlong | Millie Holme | Rebecca Daniel

## DYNION A MERCHED **EDP**

Harry Davies | Amy Cradden
Caitlin Witham | Betsan Thomas



# Cwpan Iau y Byd

**Mae llwyddiant ein timau hŷn ni wedi cael ei adlewyrchu gan ddatblygiadau cyffrous o fewn ein llwybr perfformiad iau, gyda'r genhedlaeth nesaf o chwaraewyr Cymru yn sicrhau sylw a phrofiad rhyngwladol amhrisiadwy.**

Ym mis Rhagfyr 2025, teithiodd ein tîm Merched Dan 21 i Santiago, Chile, i gystadlu yng Nghwpan Iau y Byd gan wynebu grŵp eithriadol anodd, yn cynnwys Gwlad Belg a'r Ariannin, y ddau ymhlith timau ieuenctid elitaidd y byd.




Er gwaethaf yr her, cystadlodd y tîm yn wych, gan wthio Gwlad Belg yr holl ffordd a dangos twf tactegol a gwydnwch drwy gydol y twrnamaint. Yn y camau croesi drosodd, cawsant fuddugoliaeth ragorol dros Dde Affrica, gwrthwynebydd arall mewn safle uwch, gan fynd ymlaen i orffen yn 14eg yn gyffredinol - safle cadarn yn rhagori ar ddisgwyliadau ac yn adlewyrchu cynnydd cyflym y garfan.

Roedd y siwrnai yng Nghwpan Iau y Byd yn dystiolaeth i'r cryfder a'r dyfnder o fewn ein rhaglen merched, gyda pherfformiadau a ddangosodd nid yn unig botensial unigol ond hefyd cred, undod ac uchelgais ar y cyd. Bydd y profiad yma'n chwarae rhan hanfodol wrth siapio'r genhedlaeth nesaf o chwaraewyr rhyngwladol Cymru.




| STAFF CWPAN IAU Y BYD |
|---|
| Walid Abdo |
| Kevin Johnson |
| Paul Edwards |
| Sarah Hardman |
| Samantha Walker |
| Matty Sears |






# Grwpiau Oedran Cenedlaethol (GOC'iau)

## Trosolwg 2025

**Daeth tymor 2025 i ben gyda'n Rhaglen Bechgyn a Merched Dan 18 yn cystadlu yng nghystadlaethau Pencampwriaeth Ewropeaidd II. Wynebodd ein Bechgyn D18 gystadleuaeth ac amodau caled yn Nhwrci gan orffen yn 8fed, tra arhosodd ein Merched ni fymryn yn nes at adref a chystadlu yn yr Alban, gan orffen yn 5ed.**

- **GOC y Merched – Glasgow, Yr Alban, 13–19 Gorffennaf** (AUT, CZE, IRL, LTU, SCO, TUR, WAL, SUI)
- **GOC y Bechgyn – Alanya, Twrci, 13–19 Gorffennaf** (AUT, IRL, ITA, POL, SUI, TUR, UKR, WAL)

Roedd y ddau brofiad yn brofiadau dysgu gwerthfawr i'n chwaraewyr ni, y staff a'r rhaglenni. Ar ôl cwblhau'r cylch, fe wnaethom ffarwelio â rhai o'n staff a hoffem fynegi ein diolch iddynt am eu cyfraniadau at ein rhaglenni.

## Rhaglen D18 y GOC 2025/26

Yn dilyn adolygiad o'n llwybr ac i gydnabod yr heriau o ran yr adnoddau sydd ar gael, aethom ati i benderfynu i addasu ein rhaglenni grŵp oedran yn ddau faes penodol. Mae'r newid hwn yn galluogi i ni ganolbwyntio mwy ar gyfnod datblygu yn hytrach nag ar oedran yn unig. Ym mis Medi 2025, cyflwynwyd ein rhaglenni Dyhead ac Aeddfedu, ochr yn ochr â phenodi staff newydd i gefnogi eu cyflwyno.

Yn dilyn proses ddewis gystadleuol (Medi - Ionawr), dewiswyd dwy garfan lawn ar gyfer cylch Rhaglen Dyhead 2026. Gan ddefnyddio'r un broses asesu, fe wnaethom hefyd nodi ein grŵp ar gyfer rhaglen Aeddfedu 2026 — grŵp llai yn fwriadol o tua 14 o chwaraewyr, sy'n cynnwys y rhai sy'n gymwys ar gyfer Pencampwriaethau Ewropeaidd D18 yn 2027 a Phencampwriaethau Ewropeaidd D21 yn 2028.

Drwy gydol cylch y rhaglen, byddwn yn parhau i wahodd chwaraewyr Rhanbarthol sy'n perfformio ar lefel uchel i'r amgylchedd. Mae'r dull hwn o weithredu'n galluogi i ni ganfod a datblygu cronfa ehangach o athletwyr, yn enwedig mewn blwyddyn gystadlu heb fod yn Ewropeaidd ar gyfer ieuenctid D18. Bydd y grŵp hwn hefyd yn gweithio tuag at gystadlu yng Ngemau'r Ysgolion ym mis Medi. Dechreuodd pob rhaglen gyda gwersyll preswyl ym mis Chwefror, gan ganolbwyntio ar feithrin tîm, datblygiad unigol, a phennu disgwyliadau clir ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Dros y Pasg (2026), cystadlodd Merched y Rhaglen Dyhead a Bechgyn y Rhaglen Dyhead yn y twrnameintiau 6 Gwlad Ewropeaidd. Teithiodd y Merched i Tonbridge i wynebu'r Iseldiroedd, Lloegr, UDA a'r Alban, gyda'r Bechgyn wedi cystadlu yn Frankfurt yn erbyn Gwlad Belg, Gwlad Pwyl, yr Alban a'r Iseldiroedd. Ochr yn ochr â hyn, cynhaliodd Rhaglen Aeddfedu'r Bechgyn wersyll datblygu yng Nghaerdydd, gyda Rhaglen Aeddfedu'r Merched wedi croesawu Canada D18 am gyfres o dair gêm. Profodd hwn yn brofiad cyntaf hynod gystadleuol a gwerthfawr o hoci rhyngwladol iau i lawer o'r chwaraewyr.

Gan edrych ymlaen at fis Mai, mae gan ein grwp Dyhead y Merched raglan hyfforddi gynhwysfawr, tra bydd Bechgyn y Rhaglen Aeddfedu'n wynebu Colegau Lloegr. Bydd gan Fechgyn y Rhaglen Dyhead gyfres o gemau yn erbyn Lloegr Dros 35 a Lloegr Dan 18 hefyd, gan ddarparu cyfleoedd cystadlu pellach o ansawdd uchel.

- **Merched y Rhaglen Dyhead - Pencampwriaeth I, Valencia, Sbaen**
  26ain Gorffennaf – 1af Awst (BEL, ENG, ESP, GER, IRL, NED, SCO, WAL)
- **Bechgyn y Rhaglen Dyhead - Pencampwriaeth II, Plzeň Litice, Y Weriniaeth Tsiec**
  28ain Gorffennaf – 1af Awst (CZE, TUR, SCO, WAL)



## STAFF Y GRŴP

| Bechgyn Grŵp Oedran Cenedlaethol - Rhaglen Dyhead | |
|---|---|
| Oli Lum | Prif Hyfforddwr |
| Jonny Fleck | Rheolwr y Rhaglen / Hyfforddwr Cynorthwyol |
| Matty Sears | Rheolwr y Rhaglen / Hyfforddwr Cynorthwyol |
| Connor Heatherton | Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru |
| Callum Chapman | Ffisiotherapydd |
| **Bechgyn Grŵp Oedran Cenedlaethol - Rhaglen Aeddfedu** | |
| Brett Madden | Prif Hyfforddwr |
| Reuben Elliot | Hyfforddwr Cynorthwyol / Rheolwr |

## STAFF Y GRŴP

| Merched Grŵp Oedran Cenedlaethol - Rhaglen Dyhead | |
|---|---|
| Chris Davis | Prif Hyfforddwr |
| Emily Tyler | Rheolwr y Rhaglen |
| Matt Way | Hyfforddwr Cynorthwyol |
| Gwyn Davis Murray | Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru |
| Aimee Jones | Ffisiotherapydd |
| **Merched Grŵp Oedran Cenedlaethol - Rhaglen Aeddfedu** | |
| David Robinson | Prif Hyfforddwr |
| Josie Rixon | Hyfforddwr Cynorthwyol / Rheolwr |

## CRONFA FFISIOTHERAPYDDION

| | |
|---|---|
| Ffion Thomas | Chelsie-Jane Mason |
| Cora Hogan | Ashleigh Abbott |



# Y Rhaglen Ranbarthol

**Yn 2025, cefnogodd ein tair Canolfan Ranbarthol (Gogledd, De Orllewin, De Ddwyrain) ddatblygiad technegol, corfforol a chyfannol 180 o athletwyr iau.**

Mae'r rhaglen yn cyd-fynd â safonau GOC, gan ddarparu sesiynau 4 awr, diwrnod llawn sy'n cyfuno datblygiad ar y cae ac oddi arno. Mae ein partneriaethau rhanbarthol gyda Phrifysgol Wrecsam, Prifysgol Abertawe a Chwaraeon Cymru yn chwarae rhan allweddol wrth gyflwyno'r rhaglen hon.

Yn gyffrous, yn 2026, cyflwynwyd Haen Ranbarthol ychwanegol; Rhaglen Ddatblygu Ranbarthol. Mae'r Rhaglen Ddatblygu Ranbarthol yn cynnwys chwaraewyr y Sir a ddewiswyd, yn dilyn cynnal y Pencampwriaethau Sirol ym mis Chwefror.

Drwy gydol y rhaglen, gellir gwahodd chwaraewyr y Rhaglen Perfformiad Rhanbarthol i Wersylloedd y Rhaglen Aeddfedu. Bydd y Rhaglen yn cyrraedd uchafbwynt gyda'r chwaraewyr naill ai'n ymuno â'r Rhaglen Aeddfedu i gystadlu yng Ngemau'r Ysgolion ym mis Medi neu byddant yn cymryd rhan yn ein Cystadleuaeth Ranbarthol gyntaf yng Nghaerdydd ym mis Awst. Diolch o galon i bob chwaraewr, rhiant a hyfforddwr am eu hymrwymiad parhaus i'r llwybr.



| HYFFORDDWYR Y GANOLFAN BERFFORMIO RANBARTHOL | |
|---|---|
| **Brett Madden** | **Prif Hyfforddwr Bechgyn y Gogledd** |
| **Tom Williamson** | **Prif Hyfforddwr Merched y Gogledd** |
| Rob Williams | Hyfforddwr Cynorthwyol Bechgyn y Gogledd |
| Matt Wilkinson | Hyfforddwr Cynorthwyol Merched y Gogledd |
| Luke Edwards | Hyfforddwr Gôl-geidwaid y Gogledd |
| **Callum Chapman** | **Prif Hyfforddwr Bechgyn a Merched y De Orllewin** |
| Mollie Tuff | Hyfforddwr Cynorthwyol y De Orllewin |
| Emily Haywood | Hyfforddwr Cynorthwyol y De Orllewin |
| Robert Webb | Hyfforddwr Gôl-geidwaid y De Orllewin |
| **Jonathan Forey** | **Prif Hyfforddwr Merched y De Ddwyrain** |
| **Will Schuler** | **Prif Hyfforddwr Merched y De Ddwyrain** |
| **David Robinson** | **Prif Hyfforddwr Bechgyn y De Ddwyrain** |
| Jonny Fleck | Hyfforddwr Cynorthwyol Bechgyn y De Ddwyrain |
| Freddie Taylor | Hyfforddwr Gôl-geidwaid y De Ddwyrain |

| HYFFORDDWYR Y GANOLFAN DDATBLYGU RANBARTHOL | |
|---|---|
| **Rob Williams** | **Prif Hyfforddwr Bechgyn y Gogledd** |
| **Ryan Goddard** | **Prif Hyfforddwr Merched y Gogledd** |
| Gemma Phelps | Hyfforddwr Cynorthwyol Merched y Gogledd |
| Luke Edwards | Hyfforddwr Gôl-geidwaid y Gogledd |
| **Rob Codd** | **Prif Hyfforddwr Bechgyn a Merched y De Orllewin** |
| Jamie Pitman | Hyfforddwr Cynorthwyol y De Orllewin |
| Ned Ress Wigmore | Hyfforddwr Cynorthwyol y De Orllewin |
| Robert Webb | Hyfforddwr Gôl-geidwaid y De Orllewin |
| **Chris Williams** | **Prif Hyfforddwr Merched y De Ddwyrain** |
| Jamie Everett | Hyfforddwr Cynorthwyol Merched y De Ddwyrain |
| **Adam Broomfield** | **Prif Hyfforddwr Bechgyn y De Ddwyrain** |
| George Marshall | Hyfforddwr Cynorthwyol Bechgyn y De Ddwyrain |
| Freddie Taylor | Hyfforddwr Gôl-geidwaid y De Ddwyrain |






# Ffrindiau Hoci Cymru




**Cefnogaeth**
Prosiect Flyerz Clwb Hoci Merched Rhondda

**237**
o aelodau

**48**
o rafflau misol

**13**
o enillwyr clwb

**35**
o enillwyr unigol

Mae gan ein tudalen Facebook
***945*** *o ddilynwyr*
***447*** *wedi hoffi'r dudalen*
Ffrindiau Hoci Cymru

Mae gan ein cyfrif Instagram
***445*** *o ddilynwyr*
***392*** *o bostiadau*
friends_of_wh

Mae gan ein cyfrif X
***342*** *o ddilynwyr*
@FriendsofWH

**www.friendsofwelshhockey.org.uk**

Rhif elusen: 1140894




***Elusen a sefydlwyd i gefnogi gweithgareddau hoci maes yng Nghymru yw Ffrindiau Hoci Cymru.***

# Hoffem ddiolch i'n Partneriaid a'n Rhanddeiliaid am eu cefnogaeth

## Partneriaid Pennawd

CASTORE
KITLOCKER.COM
GRILLA.
SKIN wrkout
Astudio yng Nghymru
Study in Wales

## Partneriaid Swyddogol

ROUTE
DESTINATION SPORT
veo
SPORTIN WALES
partnered with octopus energy
DRAGON SIGNS
PhysiQue Sports Medical Products
NETWORLD SPORTS
FORZA
BEARHUG
inspiresport Tours to Inspire the Next Generation
RENISHAW apply innovation
DARCY HEALTHCARE
OSAKA 大阪
RALPHH
ACE FEET IN MOTION
SPORTSCOVER DIRECT
MSM

## Rhanddeiliaid Allweddol

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd
CHRIST COLLEGE BRECON
Swansea University
Prifysgol Abertawe
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | Wrexham Glyndŵr University
sport wales chwaraeon cymru
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
GREAT BRITAIN HOCKEY
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund
THE NATIONAL LOTTERY
ann craft trust
EuroHockey
CHWARAEON ANABLEDD CYMRU
DISABILITY SPORT WALES
RYDAL PENRHOS
cymru | wales
Child Protection in Sport Unit
FIH

# Edrych ymlaen at 2026/27

## Codi'r Safon: Safonau Gofynnol i Glybiau

**Wrth i ni edrych ymlaen, mae ffocws o'r newydd ar lywodraethu a chynaliadwyedd yn sail i'n huchelgais i godi safonau ar draws y gêm.** Bydd datblygu Cynlluniau Gweithredu Clybiau'n darparu fframweithiau clir ac ymarferol i helpu clybiau i gryfhau arweinyddiaeth, diogelu cyfranogwyr a chynllunio ar gyfer llwyddiant hirdymor. Ochr yn ochr â hyn, bydd trefniadau llywodraethu gwell ar gyfer cynghreiriau a chyrff cysylltiedig yn hyrwyddo cysondeb, atebolrwydd a chydweithredu ar bob lefel. Mae cyflwyno trwyddedu hyfforddwyr a dyfarnwyr wedi'i ddiweddaru yn gam allweddol wrth gefnogi datblygiad, ansawdd a hyder ar y cae, gan atgyfnerthu amgylcheddau diogel, cynhwysol a phleserus i bawb. Yn hollbwysig, nid yw'r gwelliannau hyn yn cael eu cyflwyno'n ynysig. Mae gan bob clwb, gwirfoddolwr, swyddog a chwaraewr rôl i'w chwarae wrth siapio camp sy'n groesawgar, yn cael ei llywodraethu'n dda ac yn gynaliadwy. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n adeiladu sylfaen gadarnach ar gyfer hoci yng Nghymru, nawr ac ar gyfer y dyfodol.

## Cymru Ar y Llwyfan Byd-eang

**Bydd Cymru'n disgleirio'n llachar ar y llwyfan byd-eang yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, gyda'n timau cenedlaethol ni'n chwifio'r faner yn rhai o ddigwyddiadau mwyaf y gamp.** Yn yr Ewros Dan 21 oed, mae hoci yng Nghymru yn dathlu carreg filltir bwysig wrth i'r merched gystadlu yn Adran A am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer, gan herio timau elitaidd Ewrop. Mae carfan y dynion yn dychwelyd i Gwpan y Byd am yr eildro yn unig, gan ailgynnau un o ornestau mawr y byd hoci wrth iddyn nhw wynebu'r hen elyn, Lloegr. Yn y cyfamser, mae Cwpan y Byd y Meistri yn adlewyrchu dyfnder ac angerdd y gêm, gyda mwy nag erioed o dimau o Gymru wedi cofrestru ar draws grwpiau oedran niferus.



## Tymor Clwb Cyffrous

**Wrth i ni edrych ymlaen at dymor newydd i'r clybiau, mae'r momentwm ar draws hoci yng Nghymru yn teimlo'n gryfach nag erioed.** Mae dyrchafiadau a sicrhawyd drwy ymgyrchoedd caled wedi sicrhau bod timau'n camu'n hyderus i adrannau newydd, gan godi safonau a hogi cystadleuaeth wythnos ar ôl wythnos. Ar yr un pryd, mae cystadlaethau cwpan yn parhau i dyfu, gyda mwy o dimau nag erioed yn cofleidio her, cyfle a drama hoci taro allan. O'r hwb agoriadol i ddiwrnod y rownd derfynol, mae'r tymor yn addo dwysedd, uchelgais ac eiliadau bythgofiadwy. Mae hwn yn dymor clwb sydd wedi'i ddiffinio gan gynnydd, balchder a phosibilrwydd. Mae gan bawb ran i'w chwarae.

## Datblygu Pobl

**Mae buddsoddiad parhaus mewn hyfforddi ac addysgu dyfarnwyr a swyddogion yn parhau i fod yn ganolog i godi safonau ar draws hoci yng Nghymru.** Mae'r ddarpariaeth hyfforddi estynedig yn cael ei thrawsnewid drwy ein platfform dysgu digidol, Hoci Dysgu Hwb, gan gynyddu hygyrchedd, ansawdd a chysondeb i bawb sy'n ymwneud â'r gêm. Mae dysgu hyblyg, ar-lein yn caniatáu i gyfranogwyr ddatblygu ar gyflymder sy'n cyd-fynd â bywydau prysur, gan sicrhau bod negeseuon allweddol ynghylch diogelwch, cynhwysiant ac arfer gorau yn cael eu cyflwyno'n gyson ledled y wlad. Ochr yn ochr â dysgu wyneb yn wyneb a mentora, mae'r dull cymysg yma o weithredu'n cefnogi hyfforddwyr a swyddogion hyderus, sydd wedi paratoi'n dda, yn cryfhau cadw a chynnydd, ac yn helpu i greu profiadau cadarnhaol a phleserus ar ac oddi ar y cae i bawb.

## BYDDWCH YN RHAN O'R CYFAN – 2026/27!

Mae'r flwyddyn sydd i ddod yn addo cyfleoedd cyffrous a chynnydd pwerus.

Diolch i bawb sy'n parhau i hyrwyddo a chefnogi hoci yng Nghymru. Edrychwn ymlaen at greu dyfodol cadarnach a mwy cynhwysol gyda'n gilydd.



# DIOLCH

**Adroddiad Blynyddol Hoci Cymru 2025/26**

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad, i Irfon Bennett am gofnodi'r eiliadau gwerthfawr hynny, ac i'r teulu hoci am eich cefnogaeth barhaus.

Am ragor o wybodaeth neu i gymryd rhan ewch i: **www.hockeywales.org.uk**

@HockeyWales

@Hoci_Cymru

Hoci Cymru

Neu e-bostiwch ni yn: **info@hockeywales.org.uk**

**Hoci Cymru,** Sport Wales National Centre, Sophia Gardens, Cardiff, CF11 9SW.